



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales


Polisi ac Iechyd Rhyngwladol

Canolfan Cydweithredol Sefydliad Iechyd y  
Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a  
Llesiant

Policy and International Health

World Health Organization  
Collaborating Centre on Investment for Health and  
Well-being

# Cost Ysmygu yng Nghymru



# Cost Ysmygu yng Nghymru

Gorffennaf 2026



## Awduriaeth, gwybodaeth gyswllt a chydabyddiaethau

Awduron: Rajendra Kadel, Brendan Collins, Chris Emmerson, Mariana Dyakova, Hannah Thomas, Aronrag Meeyai, Cathy Madge a Sumina Azam

Manylion cyswllt:

Tîm Lles Economeg a Gwerth

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

Iechyd Cyhoeddus Cymru.

E-bost: [whocc.ihw@wales.nhs.uk](mailto:whocc.ihw@wales.nhs.uk)

Gwefan: <https://icccgsib.co.uk/amdanom-ni/>

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

ISBN: 978-1-83766-876-2

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

[www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/)

Mae hawlfraint yn y drefn deipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Hoffai'r awduron ddiolch i gydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru (gan gynnwys, Dr. Jo Davies, Pennaeth Economeg Iechyd) a Vasileios Matthaïos o Brifysgol Lerpwl am eu mewnbwn gwerthfawr, eu hadborth a'u cefnogaeth drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r adroddiad hwn.



## Cynnwys

Awduriaeth, gwybodaeth gyswllt a chydabyddiaethau .....	2
Cynnwys.....	3
Crynodeb Gweithredol.....	4
Cefndir a chyd-destun strategol .....	4
Canfyddiadau allweddol.....	4
Goblygiadau i bolisi ac ymarfer.....	5
Rhestr o Dablau.....	7
Rhestr o Ffigurau.....	7
Cyflwyniad .....	9
Methodoleg .....	10
Cyffredinrwydd ysmegu yng Nghymru .....	10
Costau derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn flynyddol .....	10
Costau presenoldeb cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	11
Cost gwasanaethau meddygon teulu blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	11
Cost presgripsiynau blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	11
Costau gofal cymdeithasol blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	12
Costau cynhyrchiant blynyddol a gollir sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	12
Y gost amgylcheddol flynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	13
Colledion QALY sy'n gysylltiedig ag ysmegu a chostau cysylltiedig yng Nghymru.....	14
Canfyddiadau .....	15
Crynodeb.....	15
Cyffredinrwydd ysmegu yng Nghymru .....	15
Costau derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn flynyddol .....	18
Costau blynyddol presenoldeb cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru.....	20
Cost gwasanaethau meddygon teulu blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	22
Cost presgripsiynau blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	24
Costau gofal cymdeithasol blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	27
Costau cynhyrchiant blynyddol a gollir sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	29
Y gost amgylcheddol flynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru .....	31
Colledion QALY sy'n gysylltiedig ag ysmegu a chostau cysylltiedig yng Nghymru.....	33
Trafodaeth a Chasgliadau .....	40
Argymhellion .....	43
Cyfeiriadau.....	44
Atodiadau .....	47
Cost Ysmegu yng Nghymru yn ôl Byrddau Iechyd .....	47



# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir a chyd-destun strategol

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran rheoli tybaco dros y degawdau diwethaf ac mae ganddi ymrwymiad polisi cryf i sicrhau Cymru ddi-fwg erbyn 2030. Fodd bynnag, mae tua un o bob saith oedolyn yn dal i ysmegu, gyda chyffredinrwydd ysmegu yn parhau i fod yn sylweddol uwch mewn cymunedau mwy amddifad. Mae ysmegu yn parhau i osod baich sylweddol ar wasanaethau iechyd, yr economi a'r amgylchedd yng Nghymru, ond nid yw cost lawn ysmegu yn cael ei dal yn rheolaidd mewn un lle. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yng Nghymru ar gost ysmegu wedi dyddio ac yn aml yn seiliedig ar ddulliau cyfyngedig, gan leihau ei pherthnasedd i heriau polisi cyfredol. Ar adeg o gyllid cyhoeddus cyfyngedig ac anghydraddoldebau iechyd parhaus, mae asesiad cyfredol a chynhwysfawr o gostau ysmegu yn hanfodol i lywio polisi, cefnogi ymdrechion atal ac arwain dulliau gweithredu teg ledled Cymru.

Mae'r gwaith hwn yn helpu i gyflawni Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr uchelgais o Gymru ddi-fwg. Mae'n darparu dadansoddiad manwl o gostau sy'n gysylltiedig ag ysmegu ar draws saith maes allweddol: derbyniadau i'r ysbyty, presenoldeb cleifion allanol, gwasanaethau meddygon teulu, gwasanaethau presgripsiwn, gofal cymdeithasol, colli cynhyrchiant, ac effaith amgylcheddol. Mae'r costau'n cael eu dadansoddi yn ôl rhyw, cwintel amddifadedd ac awdurdod lleol, gan roi cipolwg gwerthfawr ar raddfa, ysgogwyr a dosbarthiad niwed sy'n gysylltiedig ag ysmegu ledled Cymru a chryfhau'r achos dros atal cynnar ac ymyrraeth wedi'i dargedu. Er bod y dadansoddiad yn canolbwyntio ar ysmegu tybaco, gallai gwaith pellach hefyd archwilio effeithiau iechyd ac economaidd e-sigaréts a fepio, a all hefyd achosi niwed.

## Canfyddiadau allweddol

### Cost gyffredinol ysmegu

- Mae ysmegu yn costio **£1.56 biliwn i Gymru bob blwyddyn**, baich ariannol sylweddol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, cynhyrchiant a meysydd amgylcheddol.
- Mae **cost flynyddol ysmegu** gyfwerth â £499 y pen, £622 yr oedolyn, a £4,661 i bob oedolyn sy'n ysmegu yng Nghymru.
- Amcangyfrifwyd **bod costau blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu** yn £670.0 miliwn ar gyfer colli cynhyrchiant, £241.2 miliwn ar gyfer effeithiau amgylcheddol, £210.2 miliwn ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty, £196.2 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol, £94.0 miliwn ar gyfer presgripsiynau, £78.3 miliwn ar gyfer gofal cleifion allanol, a £71.5 miliwn ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu.
- Mae'r **gost o £650 miliwn o drin a chefnogi ysmygwyr** sy'n profi salwch ac anabled hirdymor yn cynrychioli **5% o gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol Cymru**.
- Amcangyfrifir bod ysmegu yn golygu bod **143,264 blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALY) yn cael eu colli bob blwyddyn**, ac amcangyfrifir bod gwerth y colledion ansawdd bywyd hyn yn **£2.86–£10.03 biliwn**.



## Ysmygu ac anghydraddoldebau

- Mae ysmygu yn yr ardaloedd mwyaf amddifad (22.6%) yn fwy na thair gwaith yn uwch nag yn y lleiaf amddifad (6.8%), sy'n adlewyrchu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ehangach.
- Mae bron i draean o'r holl gost sy'n gysylltiedig ag ysmygu (£489.8 miliwn; 31.4%) wedi'i ganolbwyntio yn y pumed rhan mwyaf amddifad, o'i gymharu â £169.4 miliwn (10.9%) yn y lleiaf amddifad.
- Mae anghydraddoldebau i'w gweld yn gyson ar hyd y graddiant amddifadedd ar draws pob categori costau, yn enwedig ar gyfer colledion cynhyrchiant a chostau gofal cymdeithasol.
- Gwelir amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol gyda Chaerdydd â'r cyfanswm uchaf o gostau sy'n gysylltiedig ag ysmygu (£171.4 miliwn), ac yna Rhondda Cynon Taf (£163.1 miliwn) ac Abertawe (£111.7 miliwn). Gyda'i gilydd, mae'r tair ardal yma yn cyfrif am bron i 29% o gyfanswm cost Cymru.
- Mae gwahaniaethau ar draws awdurdodau yn adlewyrchu amrywiadau mewn canrannau ysmygu, strwythur y boblogaeth, amddifadedd, a phenderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd.
- Roedd dynion yn cyfrif am gyfran ychydig yn uwch o'r costau cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ysmygu (£807.6 miliwn; 52%) na menywod (£753.7 miliwn; 48%), gyda'r gwahaniaeth mwyaf i'w weld yng nghostau derbyniadau i'r ysbyty.
- Mae baich economaidd colledion QALY yn syrthio yn anghymesur ar ddynion a'r cymunedau mwyaf amddifad, lle mae colledion yn fwy na thair gwaith yn uwch nag yn yr ardaloedd lleiaf amddifad.

## Goblygiadau i bolisi ac ymarfer

Er bod ysmygu wedi gostwng yng Nghymru i 13% o oedolion, mae'r adroddiad hwn yn dangos nad yw'r costau ariannol wedi gostwng yn gymesur, yn bennaf oherwydd crynodiad parhaol mewn cymunedau o amddifadedd a chydabyddiaeth o gostau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Er bod costau gwasanaethau iechyd yn sylweddol, mae'r costau mwyaf yn deillio o golledion cynhyrchiant ynghyd â gofal cymdeithasol, gan dynnu sylw at yr angen am werthusiadau cynhwysfawr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r GIG. Mae dull cymdeithas gyfan a chydweithrediad traws-sector rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, yn ogystal ag ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, yn hanfodol i liniaru colledion a gwella canlyniadau i weithwyr a chyflogwyr.

Mae angen dirfawr i leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag ysmygu ac sy'n cael eu gyrru gan amddifadedd a daearyddiaeth yng Nghymru. Mae hon yn her iechyd cyhoeddus a chyfiawnder cymdeithasol sy'n gofyn am bolisïau brys, wedi'u teilwra'n lleol, sy'n amgylcheddol ymwybodol a theg i leihau'r defnydd a darparu cymorth i'r rhai sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmygu. Mae angen cymorth wedi'i dargedu ar gyfer cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan ysmygu, fel mynediad at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, er mwyn sicrhau'r enillion iechyd ac economaidd mwyaf, lliniaru niwed hirdymor, a lleihau costau.



Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod cost ysmegu yn llawer uwch na'r refeniw a gynhyrchir gan drethi ar dybaco, gan ategu tystiolaeth o Loegr yn 2025. Mae dull llywodraeth gyfan yn hanfodol, gan gynnwys gweithredu'r Ddeddf Tybaco a Fêps yn llawn. Mae hyn yn darparu pwerau newydd i reoleiddio tybaco a chynhyrchion fepio a sicrhau'r effaith mwyaf ar iechyd y cyhoedd, gan hyrwyddo mesurau 'targed tybaco terfynol' fel yr amlinellir yn y Strategaeth Rheoli Tybaco. Dylai ymdrechion ganolbwyntio ar atal trwy fesurau rheoli tybaco cyffredinol cryfach, megis trethiant, deddfwriaeth di-fwg, integreiddio i strategaethau ehangach, a buddsoddi mewn ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus a chynyddu ymwybyddiaeth.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi mesurau i reoli tybaco ledled Cymru drwy ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth am effeithiau ysmegu ar iechyd, yr economi ac anghydraddoldeb. Trwy ddadansoddiad cadarn, rydym yn cefnogi Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a chymunedau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a thargedu camau gweithredu lle mae baich y niwed sy'n gysylltiedig ag ysmegu fwyaf. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, bydd dadansoddiadau economaidd pellach yn asesu costau, manteision ac adenillion o fuddsoddi ar ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu, gan gynnwys dadansoddiadau cost-effeithiolrwydd dosbarthiadol i ddeall eu heffaith ar anghydraddoldebau iechyd. Bydd gwerthusiad economaidd o bolisiau trwyddedu manwerthwyr tybaco hefyd yn darparu tystiolaeth i lywio polisi rheoli tybaco yng Nghymru yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, bydd y gwaith hwn yn helpu i gryfhau mesurau rheoli tybaco, gwella iechyd y boblogaeth, a lleihau anghydraddoldebau ledled Cymru.



## Rhestr o Dablau

Tabl 1 Paramedrau i amcangyfrif costau amgylcheddol.....	14
Tabl 2 Cymhariaeth o gostau sy'n gysylltiedig ag ysmegu rhwng Cymru a Lloegr.....	40

## Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1 cyffredinrwydd ysmegu yng nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw .....	16
Ffigur 2 cyffredinrwydd ysmegu yng nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw .....	17
Ffigur 3 cyffredinrwydd ysmegu yng nghymru yn ôl awdurdod lleol a chwintel amddifadedd .....	18
Ffigur 4 cost flynyddol derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw.....	19
Ffigur 5 cost flynyddol derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw .....	20
Ffigur 6 cost flynyddol cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw.....	21
Ffigur 7 cost flynyddol cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw.....	22
Ffigur 8 cost flynyddol gwasanaethau meddygon teulu sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw .....	23
Ffigur 9 cost flynyddol gwasanaethau meddygon teulu sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw .....	24
Ffigur 10 cost flynyddol presgripsiynau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw.....	25
Ffigur 11 cost flynyddol presgripsiynau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw.....	26
Ffigur 12 cost flynyddol gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw.....	28
Ffigur 13 cost flynyddol gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw .....	28
Ffigur 14 cost cynhyrchiant blynyddol a gollir sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw.....	30
Ffigur 15 cost cynhyrchiant blynyddol a gollir sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw .....	30
Ffigur 16 cost amgylcheddol flynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw.....	32
Ffigur 17 cost amgylcheddol flynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw.....	32
Ffigur 18 costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau qaly yn ôl awdurdod lleol a rhyw yng nghymru (£20,000/qaly).....	34



Ffigur 19 costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau qaly yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw yng nghymru (£20,000/qaly).....	35
Ffigur 20 costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau qaly yn ôl awdurdod lleol a rhyw yng nghymru (£30,000/qaly).....	36
Ffigur 21 costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau qaly yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw yng nghymru (£30,000/qaly).....	37
Ffigur 22 costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau qaly yn ôl awdurdod lleol a rhyw yng nghymru (£70,000/qaly).....	38
Ffigur 23 costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau qaly yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw yng nghymru (£70,000/qaly).....	39

# Cost Ysmygu yng Nghymru

## Cyflwyniad

Mae ysmygu tybaco yn parhau i fod yn un o brif achosion marwolaethau y gellir eu hatal, ac yn gyfrifol am fwy nag 8 miliwn o farwolaethau yn fyd-eang bob blwyddyn (1). Amcangyfrifir bod y costau economaidd byd-eang dros US\$1.4 triliwn bob blwyddyn (yn debyg i CDG blynyddol gwlad fawr fel Twrci neu Indonesia) oherwydd gwariant ar ofal iechyd a cholledion cynhyrchiant (2). Er bod cyffredinrwydd ysmygu wedi gostwng mewn llawer o wledydd incwm uchel, mae'r gostyngiadau wedi bod yn anwastad ar draws rhanbarthau, grwpiau economaidd-gymdeithasol, a rhywiau (3).

Yn y DU, mae ysmygu tybaco yn parhau i fod yn un o brif achosion salwch a marwolaethau y gellir eu hosgoi. Mae'n gyfrifol am oddeutu 76,000 o farwolaethau bob blwyddyn ledled y DU ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at faich afiechydon cronig, gan gynnwys canserau, clefyd cardiofasgwlaidd, a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) (4, 5). Mae pobl yn aml yn dweud eu bod yn ysmygu i ymdopi â straen, ond mae'r dystiolaeth yn dangos bod ysmygu yn cynyddu pryder yn y tymor hwy (6).

Yng Nghymru, mae cyffredinrwydd ysmygu wedi gostwng yn sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf ond mae'n parhau i fod yn her fawr i iechyd y cyhoedd. Dywedodd tua 13.5% o oedolion yng Nghymru eu bod yn ysmygu yn 2022, sy'n cyfateb i dros 340,000 o bobl (4, 5). Ysmygu hefyd yw un o ysgogwyr mwyaf anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru, gyda chyfraddau cyffredinrwydd yn sylweddol uwch mewn cymunedau mwy amddifad o'i gymharu â'r rhai lleiaf amddifad (7). Mae'r graddiant cymdeithasol hwn mewn ysmygu yn cyfrannu at anghydraddoldebau parhaus mewn disgwyliad oes iach rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol (8).

Mae effeithiau economaidd ac effeithiau ar y system iechyd yn sylweddol. Amcangyfrifwyd yn 2013 bod salwch sy'n gysylltiedig ag ysmygu yn costio tua £300 miliwn i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn, ochr yn ochr â chostau cymdeithasol ehangach sy'n gysylltiedig â cholli cynhyrchiant a gofal cymdeithasol (4). Mae'r effeithiau hyn yn rhoi baich sylweddol ar unigolion, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus.

Mewn ymateb, mae Cymru wedi gweithredu rhaglen rheoli tybaco gynhwysfawr gyda'r nod o sicrhau Cymru ddi-fwg erbyn 2030, a ddiffinnir fel cyffredinrwydd ysmygu o 5% neu lai (7). Cefnogir yr uchelgais hon gan amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys deddfwriaeth di-fwg, trethi ar dybaco, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel Helpa Fi i Stopio. Mae 'Deddf Tybaco a Fêps 2026' (9), a ddeddfwyd yn ddiweddar ac sydd ar waith yng Nghymru a ledled y DU, yn cyflwyno Cenhedlaeth Ddi-fwg drwy godi'r oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco yn raddol, gan ei gwneud hi'n anghyfreithlon gwerthu tybaco i unrhyw un a anwyd ar 1 Ionawr 2009 neu ar ôl hynny. Mae ganddi hefyd y potensial i gyflymu'r cynnydd ymhellach tuag at gyflawni'r nod hwn. Felly, mae deall y costau iechyd, economaidd a chymdeithasol cyfredol sy'n tarddu o ysmygu yn hanfodol er mwyn llywio penderfyniadau polisi, targedu ymyriadau a monitro cynnydd tuag at uchelgeisiau di-fwg Cymru.

## Methodoleg

Cafwyd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2022 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a thynnwyd data cyffredinrwydd ysmegu (2021–2023) o Arolwg Cenedlaethol Cymru, wedi'i ddadgyfuno yn ôl rhyw, cwintel amddifadedd, ac awdurdod lleol. Daeth tystiolaeth ar gyfer mewnbynnau paramedrau sy'n ofynnol i amcangyfrif costau ar draws y gwahanol feysydd sy'n gysylltiedig ag ysmegu o ystod o lenyddiaeth gyhoeddedig.

Mae'r dadansoddiadau yn canolbwyntio'n unig ar y defnydd o dybaco ac nid ydynt yn ymdrin â fepio. Mae amcangyfrifon yn deillio o gyffredinrwydd ysmegu cyfredol, yn hytrach na phatrymau hanesyddol, er bod llawer o'r baich ariannol presennol yn adlewyrchu etifeddiaeth hirdymor ymddygiadau ysmegu yn y gorffennol. O ganlyniad, nid yw'r amcangyfrifon hyn yn gallu cyfleu sut mae cyfraddau ysmegu hanesyddol - a oedd yn aml yn amrywio yn ôl rhyw, amddifadedd economaidd-gymdeithasol, a rhanbarth daearyddol - yn parhau i ffurfio costau ysmegu heddiw.

### Cyffredinrwydd ysmegu yng Nghymru

Cawsom ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) 2021-22 – 2022-23 o wasanaeth data'r DU (10). Fe wnaethom ddefnyddio model atchweliad llinol cyffredinol i amcangyfrif nifer yr ysmegwr presennol, y cyn-ysmegwr a'r rhai nad ydynt erioed wedi ysmegu, gan addasu ar gyfer oedran, rhyw, statws priodasol, addysg, ethnigrwydd, awdurdod lleol a lefelau amddifadedd. Mae'r canlyniadau wedi'u dadgyfuno yn ôl rhyw, cwintel MALLC ac awdurdod lleol. Mae gan yr ACC gyfyngiadau wrth amcangyfrif cyffredinrwydd ysmegu ar lefelau a ddadgyfunwyd yn helaeth, fel awdurdod lleol a chwintel amddifadedd. Gall meintiau sampl bach a chynrychiolaeth anwastad ar draws is-grwpiau leihau manwl gywirdeb a chynyddu amrywioldeb samplu, gan arwain at wahaniaethau mewn amcangyfrifon cyffredinrwydd ar draws blynyddoedd arolygu a allai adlewyrchu cyfyngiadau methodolegol.

### Costau derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn flynyddol

Dadansoddwyd derbyniadau dewisol a brys i ysbytai yng Nghymru ar gyfer 2022/23 i amcangyfrif costau y gellir eu priodoli i ysmegu. Casglwyd data derbyniadau i'r ysbyty ar lefel cleifion ar gyfer y boblogaeth gyfan a chostau cyfeirio'r Grŵp Adnoddau Gofal Iechyd o warws data Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac Uned Cyflawni Ariannol, GIG Cymru. Roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar gyfnodau gofal lle roedd gan ddiagnosis sylfaenol ffracsiwn y gellir ei briodoli i ysmegu (SAF), gan ddefnyddio cyflyrau wedi'u codio gan ICD y gwyddys eu bod yn gysylltiedig ag ysmegu, fel canserau amrywiol, clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol (11-15). Roedd cost pob cyfnod gofal yn deillio o gost gyfeirio Grŵp Adnoddau Gofal Iechyd, Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2018-19 ar gyfer cleifion mewnol dewisol a brys ac achosion dydd, a chyfrifwyd y gyfran a briodolir i ysmegu trwy luosi cost y cyfnod gofal â'r SAF perthnasol. Yna chwyddwyd y costau ar gyfer blwyddyn brisio 2022 mewn GBP. Cynhaliwyd y dadansoddiad yn SQL.

Mae'r canlyniadau'n cael eu haenu yn ôl awdurdod lleol, cwintel amddifadedd, a rhyw cleifion, gan ganiatáu cipolwg ar amrywiadau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol ac

amrywiadau'n gysylltiedig â rhyw yn y baich ar ysbytai y gellir ei briodoli i ysmegu. Ar gyfer pob is-grŵp, adroddir cyfanswm nifer y cyfnodau gofal, cyfanswm y gost ddewisol ac argyfwng, a'r gost amcangyfrifedig y gellir ei phriodoli i ysmegu. Mae hyn yn rhoi darlun manwl o sut mae ysmegu yn cyfrannu at gostau gofal iechyd ar draws gwahanol boblogaethau yng Nghymru.

## Costau presenoldeb cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

Cynhaliwyd y dull methodolegol ar gyfer amcangyfrif costau cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn 2022/23 gan ddefnyddio R Studio (fersiwn 20.1). Yn gyntaf, cafodd data demograffig a data cyffredinrwydd ysmegu eu llwytho a'u paratoi, gan gyfrifo cyfrif poblogaeth ar gyfer ysmegwyr presennol, cyn-ysmegwyr a'r rhai nad ydynt erioed wedi ysmegu yn ôl awdurdod lleol, cwintel amddifadedd, a rhyw. Yna lluniwyd model cost achos sylfaenol gan ddefnyddio paramedrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys cost uned fesul presenoldeb claf allanol(16), ffracsiynau y gellir eu priodoli i ysmegu ar gyfer ysmegwyr presennol a chyn-ysmegwyr (17), a chyfradd presenoldeb claf allanol sylfaenol (17). Roedd hyn yn ymgorffori addasyddion demograffig i ragweld cyfraddau presenoldeb ardal benodol yn seiliedig ar awdurdod lleol, lefelau amddifadedd a rhyw.

Cafodd y canlyniadau eu cyfuno a'u crynhoi yn ôl demograffeg allweddol - awdurdod lleol, cwintel amddifadedd, a rhyw - i nodi patrymau costau. Lluniwyd yr amcangyfrifon cyfanswm costau blynyddol mewn tablau cryno a'u delweddu mewn cyfres o siartiau ar gyfer dehongli ac adrodd.

## Cost gwasanaethau meddygon teulu blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

Amcangyfrifwyd costau blynyddol meddygon teulu y gellir eu priodoli i ysmegu yng Nghymru ar gyfer 2022/23 gan ddefnyddio data poblogaeth a chyffredinrwydd ysmegu wedi'i haenu yn ôl awdurdod lleol, cwintel amddifadedd a rhyw. Cyfanswm gwariant meddygon teulu yng Nghymru oedd £650.1 miliwn yn 2022/23(18). Cymhwyswyd ffracsiwn y gellir ei briodoli i ysmegu o 11% i'r cyfanswm hwn i amcangyfrif cost gyffredinol meddygon teulu y gellir ei briodoli i ysmegu, yn unol ag amcangyfrifon blaenorol ar gyfer costau ymgynghori â meddygon teulu (17). Dyrannwyd costau yn gymesur â nifer yr ysmegwyr ym mhob is-grŵp, a chyfrifwyd cost gyfartalog fesul ysmegwr. Cynhaliwyd dadansoddiad yn R Studio (fersiwn 20.1).

## Cost presgripsiynau blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

Fe wnaethom amcangyfrif cost presgripsiynau y gellir eu priodoli i ysmegu yng Nghymru ar gyfer 2022-23 gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar boblogaeth. Cafwyd data poblogaeth oedolion (18+) a chyffredinrwydd ysmegu o ffynonellau cenedlaethol, wedi'i haenu yn ôl awdurdod lleol, rhyw, a chwintel amddifadedd (19). Cyfrifwyd nifer yr ysmegwyr presennol a chyn-ysmegwyr trwy luosi'r cyffredinrwydd ymhlith ysmegwyr presennol a chyn-ysmegwyr â'r boblogaeth oedolion ym mhob is-grŵp. Tybiwyd bod cyn-ysmegwyr yn cyfrif am 50% o gostau presgripsiynau ysmegwyr presennol (20).

Cafwyd cyfanswm y gwariant ar bresgripsiynau yng Nghymru (£673 miliwn ar gyfer 2022-23) o adroddiadau swyddogol y GIG, a thybiwyd bod 14% i'w briodoli i ysmegu, yn unol ag amcangyfrifon blaenorol y DU (21). Cyfrifwyd y gost cyfwerth ag ysmegu trwy rannu cyfanswm y gost y gellir ei phriodoli i ysmegu â swm yr ysmygwyr wedi'u pwysoli ar draws pob haen. Yna dyrannwyd costau presgripsiynau yn gymesur i bob is-grŵp. Cynhaliwyd y gwaith o goladu a dadansoddi data yn R (fersiwn 20.1).

## Costau gofal cymdeithasol blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

Mae ysmegu yn cynyddu'r siawns o fod angen cymorth gofal cymdeithasol oherwydd ei fod yn cynyddu'r risg o strôc, dementia ac anabledau eraill. Fe wnaethom amcangyfrif y costau gofal cymdeithasol blynyddol y gellir eu priodoli i ysmegu yng Nghymru gan ddefnyddio data ar lefel awdurdod lleol ar gyffredinrwydd ysmegu, wedi'i haenu yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw. Cafodd data cyffredinrwydd ysmegu ei adfer o Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) a chafwyd data demograffig gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Roedd paratoi data yn cynnwys dewis newidynnau perthnasol (pobl 65+ oed, ysmygwyr presennol a chyn-ysmygwyr, a chyffredinrwydd ysmegu) a chyfuno gwerthoedd yn ôl awdurdod lleol, cwintel amddifadedd, a rhyw.

Amcangyfrifwyd nifer yr ysmygwyr 65+ oed sydd angen gofal trwy gymhysu cyffredinrwydd ysmegu a welwyd i'r boblogaeth oedrannus. Mae'r amcangyfrifon yn adlewyrchu'r anghenion gofal cymdeithasol o fewn y boblogaeth sy'n ysmegu ac nid ydynt yn cynrychioli anghenion gofal ychwanegol ysmygwyr o'u cymharu â phobl nad ydynt yn ysmygwyr.

Rhannwyd anghenion gofal yn ofal preswyl a gofal cartref gan ddefnyddio tystiolaeth benodol i Gymru ar gyfran yr ysmygwyr sydd angen gofal sefydliadol (15%). Roedd costau uned yn seiliedig ar ystadegau'r GIG yn 2022 o £800 yr wythnos ar gyfer gofal preswyl a £20 yr awr ar gyfer gofal cartref (22). Tybiwyd bod anghenion gofal cyfartalog yn 10 awr fesul ysmygwr yr wythnos ar gyfer gofal cartref (23). Cyfrifwyd costau blynyddol ar wahân ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref ac yna eu cyfuno i amcangyfrif cyfanswm y costau gofal cymdeithasol blynyddol y gellir eu priodoli i ysmegu. Mae'r canlyniadau yn cael eu crynhoi yn ôl awdurdod lleol, cwintel amddifadedd, a rhyw.

## Costau cynhyrchiant blynyddol a gollir sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

Fe wnaethom amcangyfrif costau cynhyrchiant coll y gellir eu priodoli i ysmegu yng Nghymru yn 2022/23 gan ddefnyddio fframwaith modelu tebygolrwydd. Cafwyd data poblogaeth a chyffredinrwydd ysmegu o Arolwg Cenedlaethol Cymru ac amcangyfrifon poblogaeth SYG, wedi'i haenu yn ôl awdurdod lleol, cwintel amddifadedd a rhyw (5, 19). Deilliwyd mewnbynnau marwolaethau o dablau bywyd cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd gan yr SYG (24). Cyfunwyd y data yma i amcangyfrif y colledion o ran cynhyrchiant sy'n gysylltiedig ag ysmegu.

Roedd y dadansoddiad yn ystyried pedwar prif gategori o golli cynhyrchiant: seibiannau ysmegu, absenoliaeth, presenoliaeth a marwolaethau cynamserol. Roedd seibiannau ysmegu yn cael eu hystyried yn amser a gollwyd yn ystod y diwrnod gwaith (25). Roedd absenoldeb yn adlewyrchu diwrnodau ychwanegol o waith a gollwyd gan ysmygwyr o'i gymharu â phobl nad ydynt yn ysmygwyr, yn seiliedig ar dystiolaeth o adolygiadau systematig (26). Roedd presenoliaeth yn golygu cynhyrchiant is yn y gwaith oherwydd effeithiau iechyd sy'n gysylltiedig ag ysmegu (27). Amcangyfrifwyd costau marwolaethau cynamserol gan ddefnyddio'r dull cyfalaf dynol, gan luosi nifer y blynyddoedd gwaith a gollwyd o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag ysmegu gormodol â gwerth cyfartalog blwyddyn bywyd gwaith (28, 29). Cymerwyd mewnbwnau economaidd, gan gynnwys cyflog cyfartalog yr awr a chyfradd gyflogaeth Cymru, o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (30) ac ystadegau'r farchnad lafur (31). Mynegwyd yr holl gostau yn GBP 2022.

Cafodd paramedrau mewnbwn allweddol eu llywio gan ystadegau cenedlaethol a thystiolaeth gyhoeddedig, ac ymgorfforwyd ansicrwydd yn y gwerthoedd hyn gan ddefnyddio dosbarthiadau tebygolrwydd arferol llai o faint ar gyfer paramedrau fel seibiannau y dydd, diwrnodau absenoliaeth, ffracsïynau presenoliaeth, blynyddoedd o fywyd gwaith a gollwyd, a risgiau marwolaethau cymharol sy'n gysylltiedig ag ysmegu. Crynhowyd y canlyniadau fel colledion cynhyrchiant blynyddol cymedrig ar gyfer pob awdurdod lleol, cwintel amddifadedd, a rhyw.

## Y gost amgylcheddol flynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

Defnyddiodd y dadansoddiad nifer o ffynonellau data. Cafwyd ffigurau poblogaeth oedolion (18 oed a hŷn) ar gyfer 2022 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a'u haenu yn ôl awdurdod lleol, cwintel amddifadedd, a rhyw gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALLC). Daeth cyffredinrwydd ysmegu ar gyfer yr un flwyddyn, wedi'i ddadgyfuno yn ôl awdurdod lleol, cwintel amddifadedd, a rhyw, o Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Deilliwyd paramedrau costau amgylcheddol o ymchwil a chofnodion gweinyddol cyhoeddedig i amcangyfrif effeithiau fesul ysmygwr ar draws sawl categori. Roedd costau glanhau sbwriel a bonion sigarêts yn seiliedig ar y defnydd o sigarêts, cyfraddau sbwriel, pwysau bonion, a chostau rheoli gwastraff. Amcangyfrifwyd costau sy'n gysylltiedig â than yn seiliedig ar gyfran y tanau y gellir eu priodoli i ysmegu, gan gynnwys difrod i eiddo, da byw a bywyd dynol. Roedd costau llygredd aer yn cyfrif allyriadau mater gronynnol mân (PM<sub>2.5</sub>), ocsidau nitrogen (NO<sub>x</sub>), sylffwr deuocsid (SO<sub>2</sub>), a chyfansoddion organig anweddol (VOCs), gan gymhwyso ffactorau cost amgylcheddol safonol (blwyddyn pris 2022) i feintioli dirywiad ecosystemau.

Deilliwyd categorïau cost amgylcheddol fesul ysmygwr o ymchwil blaenorol a chofnodion gwariant awdurdodau lleol, ac fe'u cyflwynir mewn tabl fel a ganlyn.

Tabl 1 Paramedrau i amcangyfrif costau amgylcheddol

Categori	Paramedr	Gwerth	Uned	Ffynhonnell
Glanhau Sbwriel	Sigaréts fesul ysmygwr y dydd	10.6	sig/dydd	(32)
a Bonion	Allyriadau CO <sub>2</sub> fesul sigarét	0.014	kg CO <sub>2</sub> /sig	(33)
Sigaréts	Cost CO <sub>2</sub>	52.56	£/ton CO <sub>2</sub>	(34)
	Pwysau bonion	0.25	g	(35)
	Cyfradd taflu sbwriel (bonion)	0.129	cyfran	(36)
	Cost glanhau	6.81	£/kg sbwriel	o (19, 37, 38)
Difrod Tân	Ffracsiwn tân y gellir ei briodoli i ysmegu	0.08	cyfran	(39)
	Cost tân fesul oedolyn	43	£/oedolyn	(40)
Llygredd Aer a	PM2.5 fesul sigarét	0.022	mg/sig	(41)
Dirywiad	NOx fesul sigarét	0.01	mg/sig	(42)
Ecosystemau	SO <sub>2</sub> fesul sigarét	0.002	mg/sig	(11)
	VOCs fesul sigarét	83.29	mg/sig	(43)
	Cost PM2.5	74.77	£/kg	(44)
	Cost NOx	8.15	£/kg	(44)
	Cost SO <sub>2</sub>	16.62	£/kg	(44)
	Cost VOCs	0.172	£/kg	(44)

Yna amcangyfrifwyd costau amgylcheddol blynyddol ysmegu trwy gyfrifo nifer yr ysmygwr a llusoi hyn â'r costau fesul ysmygwr ar draws pob categori, gyda'r canlyniadau wedi'u crynhoi i ddarparu cyfanswm y costau.

## Colledion QALY sy'n gysylltiedig ag ysmegu a chostau cysylltiedig yng Nghymru

Datblygwyd model baich ysmegu ar lefel poblogaeth ar gyfer Cymru (2022) yn R gan ddefnyddio tablau bywyd ar gyfer Cymru (24), ffracsiwn y gellir ei briodoli i ysmegu (SAF)(11-15), gwerthoedd defnyddioldeb cyflwr iechyd ar gyfer ysmygwr a rhai nad ydynt yn ysmygwr (45), data cyffredinrwydd ysmegu o Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) 2021–2023 (Gwasanaeth Data y DU) (10) a data poblogaeth SYG ar gyfer Cymru (19) wedi'i haenu yn ôl awdurdod lleol, rhyw, a chwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Amcangyfrifwyd tebygolrwydd marwolaethau yn ôl oedran a rhyw gan fodel ychwanegion cyffredinol (GAM) gyda chyswllt logit binomial. Deilliwyd pwysau'r baich y gellir ei briodoli i ysmegu o gyffredinrwydd ysmegu, ffracsiynau y gellir eu priodoli i ysmegu, a marwolaethau a ragwelwyd, ac fe'u defnyddiwyd i ddyrannu 35,694 o farwolaethau o bob achos yng Nghymru yn 2022 (46), gan dybio bod modd priodoli 14.5% ohonynt i ysmegu (47). Amcangyfrifwyd blynyddoedd oes a gollwyd (YLL) gan ddefnyddio disgwyliad oes sy'n weddill o dablau oes Cymru (24). Roedd colledion blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALY) yn cynnwys cydrannau marwolaethau a morbidrwydd, gan gymhwyso cyfradd ddisgownt o 3.5% a gwerthoedd defnyddioldeb ar gyfer ysmygwr a rhai nad ydynt yn ysmygwr. Cafodd colledion QALY amcangyfrifedig eu moneteiddio gan ddefnyddio trothwyon parodrwydd i dalu £20,000, £30,000, a £70,000 fesul blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd. Mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi yn ôl rhyw, cwintel MALIC ac awdurdod lleol.

## Canfyddiadau

### Crynodeb

- Roedd **cyffredinrwydd ysmegu** ychydig yn uwch ymhlith dynion na menywod (13.8% o'i gymharu ag 13%), gyda graddiant amddifadedd cryf (22.6% mwyaf amddifad o'i gymharu â 6.8% lleiaf amddifad) ac amrywiad sylweddol ar draws awdurdodau lleol (19.3% i 7.8%).
- Amcangyfrifwyd bod **cyfanswm y gost flynyddol a briodolir i ysmegu** yn £1.56 biliwn, a cholledion cynhyrchiant oedd y gyfran fwyaf o'r gost honno, sef £670 miliwn.
- Mae **derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn costio** £210.2 miliwn i Gymru bob blwyddyn, gyda chostau uwch ymhlith dynion (58%) ac yn y cymunedau mwyaf amddifad (£55.5 miliwn o'i gymharu â £36.2 miliwn), a gwelir y baich mwyaf yn Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chaerdydd.
- Mae **gofal cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn costio** £78.3 miliwn i Gymru bob blwyddyn, gyda chostau ychydig yn uwch ymhlith menywod a mwy na dwywaith mor uchel yn y cymunedau mwyaf amddifad nag yn y cymunedau lleiaf amddifad (£22.6 miliwn o'i gymharu â £9.2 miliwn).
- Roedd **costau gwasanaeth meddygon teulu sy'n gysylltiedig ag ysmegu** yn £71.5 miliwn y flwyddyn, heb fawr o wahaniaeth yn ôl rhyw ond graddiant amddifadedd cryf (£22.6m yn y rhai mwyaf amddifad o'i gymharu â £7.2m yn y rhai lleiaf amddifad).
- Roedd **costau presgripsiwn sy'n gysylltiedig ag ysmegu** yn £94.0 miliwn y flwyddyn, gyda chostau tebyg yn ôl rhyw ond costau uwch yn y cymunedau mwyaf amddifad (£23.5m o'i gymharu â £14.1m).
- Roedd **costau gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysmegu** yn £196.2 miliwn y flwyddyn, heb wahaniaeth yn ôl rhyw ond graddiant amddifadedd hynod o gryf (£77.8m yn y rhai mwyaf amddifad o'i gymharu â £11.1m yn y rhai lleiaf amddifad).
- Roedd **costau colledion cynhyrchiant sy'n gysylltiedig ag ysmegu** yn £670 miliwn y flwyddyn, wedi'u rhannu'n gyfartal yn ôl rhyw ond wedi'u crynhoi'n drwm yn y cymunedau mwyaf amddifad (£211.8 miliwn o'i gymharu â £67.3 miliwn).
- Roedd **costau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu** yn £241.2 miliwn y flwyddyn, gyda chostau tebyg yn ôl rhyw ond mwy na theirgwaith yn uwch yn y cymunedau mwyaf amddifad nag yn y cymunedau lleiaf amddifad.
- Arweiniodd **marwolaethau a morbidrwydd sy'n gysylltiedig ag ysmegu** at goli 143,264 QALY, gwerth £2.86–£10.03 biliwn, gyda chostau mwy na theirgwaith yn uwch yn y cymunedau mwyaf amddifad nag yn y cymunedau lleiaf amddifad.

### Cyffredinrwydd ysmegu yng Nghymru


- Rhyw: Mae cyffredinrwydd ysmegu yn debyg yn ôl rhyw, gyda chyfraddau ychydig yn uwch mewn dynion (13.8%) na menywod (13.0%).
- Amddifadedd: Mae graddiant cymdeithasol cryf yn bodoli, gyda chyffredinrwydd ar ei uchaf yn yr ardaloedd mwyaf amddifad (22.6%) ac ar ei isaf yn yr ardaloedd lleiaf amddifad (6.8%).
- Daeryddiaeth: Mae cyfraddau ysmegu yn amrywio'n fawr yn ôl awdurdod lleol, gan amrywio o 19.3% ym Mro Morgannwg i 7.8% yng Nghonwy, gan dynnu sylw at anghydraddoldebau daeryddol sylweddol.

Yn 2022/23, roedd cyffredinrwydd ysmegu yng Nghymru yn dangos patrymau clir yn ôl rhyw, amddifadedd a daearyddiaeth. Yn gyffredinol, roedd cyfraddau yn uwch ymhlith dynion na menywod ac yn dilyn graddiant cymdeithasol cryf, gyda'r cymunedau mwyaf amddifad yn arddangos cyfraddau ysmegu sylweddol uwch. Roedd amrywiaeth ddaearyddol hefyd yn amlwg, gydag ardaloedd trefol ac ôl-ddiwydiannol, yn enwedig yn Ne Cymru, yn dangos y cyffredinrwydd uchaf o'i gymharu ag awdurdodau llai neu wledig.

### Cwintel amddifadedd a rhyw

Mae cyffredinrwydd ysmegu ychydig yn uwch mewn dynion (13.8%) o'i gymharu â menywod (13.0%). Fodd bynnag, ymhlith y grwpiau mwyaf amddifad, roedd cyffredinrwydd ysmegu ychydig yn uwch ymhlith menywod na dynion. Mae graddiant cymdeithasol cryf yn amlwg, gydag ysmegu ar ei uchaf yn yr ardaloedd mwyaf amddifad (22.6%) ac ar ei isaf yn yr ardaloedd lleiaf amddifad (6.8%).


Ffigur 1 Cyffredinrwydd ysmegu yng Nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw



## Awdurdod lleol a rhyw

Mae cyffredinrwydd ysmegu yn amrywio'n eang ledled Cymru, o 19.3% ym Mro Morgannwg i 7.8% yng Nghonwy. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd cyffredinrwydd ysmegu yn uwch ymhlith dynion na menywod, er bod gan fenywod gyffredinrwydd ychydig yn uwch mewn nifer fach o awdurdodau, gan gynnwys Gwynedd, Wrecsam, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Cheredigion.


Ffigur 2 Cyffredinrwydd ysmegu yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw



## Awdurdod lleol a chwintel amddifadedd

Ar ben hynny, mae'r data'n dangos graddiant amddifadedd-ysmygu cryf ar draws awdurdodau Cymru, ond gall cyfartaleddau ardaloedd cyfan guddio anghydraddoldebau mewnol amlwg. Ym Mlaenau Gwent, roedd cyffredinrwydd ysmegu ar ei uchaf yn y cwintel MALLC mwyaf amddifad (16.7%), ond nid oedd unrhyw drigolion wedi'u dosbarthu yn y cwintel MALLC cenedlaethol ar gyfer y cwintel lleiaf amddifad (C5) [dim ond C1 i C4 sy'n bodoli], sy'n golygu y gall y cyfartaledd cyffredinol (8.5%) guddio anghydraddoldeb sylweddol ar lefel yr awdurdod lleol. I'r gwrthwyneb, mae gan Fro Morgannwg un o'r cyfraddau ysmegu uchaf yn y grŵp lleiaf amddifad yn genedlaethol (9.4%), gan arwain at gyfartaledd uwch, mwy cynrychioliadol (19.3%). Mae hyn dangos yn glir sut y gall ffigurau cyffredinol wanhanu neu gamgyfleu gwir faich ysmegu mewn cymunedau amddifad.

Ffigur 3 Cyffredinrwydd ysmegu yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol a chwintel amddifadedd



Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at anghydraddoldebau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol amlwg mewn ysmegu, gydag awdurdod lleol a statws amddifadedd yn cael llawer mwy o ddylanwad na rhyw. Er bod dynion yn tueddu i ysmegu ychydig yn fwy na menywod, mae'r graddiant amddifadedd amlwg (15.8 pwynt canran yn uwch) yn awgrymu y byddai mynd i'r afael ag anghydraddoldebau - yn enwedig yn y cymunedau mwyaf amddifad - yn arwain at yr effaith fwyaf wrth leihau cyffredinrwydd ysmegu yng Nghymru.

### Costau derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn flynyddol

- Rhyw: Mae derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn costio £210.2 miliwn bob blwyddyn, gyda chostau uwch i ddynion (£123.1m; 58%) na menywod (£87.1m; 42%) ar draws pob ardal.
- Amddifadedd: Gwelir graddiant economaidd-gymdeithasol clir, gyda'r costau uchaf yn yr ardaloedd mwyaf amddifad (£55.5m) a'r isaf yn yr ardaloedd lleiaf amddifad (£36.2m).
- Daearyddiaeth: Mae'r costau'n amrywio'n fawr yn ôl awdurdod lleol, ar eu huchaf yn Rhondda Cynon Taf (£29.0 miliwn), Caerffili (£25.2 miliwn), a Chaerdydd (£24.4 miliwn), ac ar eu hisaf yng Ngheredigion (£2.18 miliwn) ac Ynys Môn (£2.96 miliwn).

Yn 2022/23, roedd costau derbyn i'r ysbyty yng Nghymru yn sylweddol, sef £210.2 miliwn, gyda dynion yn gyfrifol am gyfran uwch o'r costau (58%) na menywod (42%). Roedd graddiant amddifadedd cryf yn amlwg, gyda'r costau uchaf yn yr ardaloedd mwyaf amddifad (£55.5m) a'r isaf yn yr ardaloedd lleiaf amddifad (£36.2m). Gwelwyd amrywiad daearyddol sylweddol, gyda'r costau uchaf yn Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chaerdydd, a'r isaf yng Ngheredigion ac Ynys Môn.


## Rhyw

Mae dadansoddiad yn ôl rhyw yn dangos bod cyfanswm y costau blynyddol yn uwch i ddynion (£123.1m, 58%) o'i gymharu â menywod (£87.1m, 42%) o'r cyfanswm o £210.2 miliwn. Mae'r costau uwch i ddynion a welir yma yn gyson ar draws pob awdurdod lleol a chwintel amddifadedd, sy'n dangos gwahaniaeth parhaus cysylltiedig â rhyw yn nosbarthiad costau.

### Cwintel amddifadedd a rhyw

Wrth archwilio costau blynyddol yn ôl cwintel amddifadedd, mae graddiant economaidd-gymdeithasol clir yn dod i'r amlwg. Yr ardaloedd mwyaf amddifad sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf (£55.5m), tra bod y cwintelau lleiaf amddifad yn cyfrannu swm sylweddol is (£36.2m), sy'n tynnu sylw at y ffaith bod costau uwch wedi'u crynhoi'n anghymesur mewn poblogaethau mwy amddifad.


Ffigur 4 Cost flynyddol derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw



## Awdurdod lleol a rhyw

Mae costau hefyd yn amrywio'n sylweddol yn ôl awdurdod lleol. Gwelir cyfanswm y costau blynyddol uchaf yn Rhondda Cynon Taf (£28.95 miliwn), Caerffili (£25.17 miliwn), a Chaerdydd (£24.44 miliwn), tra bod awdurdodau llai fel Ceredigion (£2.18 miliwn) ac Ynys Môn (£2.96 miliwn) yn adrodd y costau isaf. Ar draws bron pob awdurdod, mae costau dynion yn gyson yn fwy na chostau menywod, gan adlewyrchu'r patrwm rhyw cyffredinol.

Ffigur 5 Cost flynyddol derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw



Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf a hyrwyddo tegwch, dylai ymyriadau flaenoriaethu dynion a phoblogaethau mewn ardaloedd mwy amddifad, gan dargedu awdurdodau lleol cost uchel fel Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chaerdydd, a sicrhau bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio lle mae'r baich economaidd mwyaf.

## Costau blynyddol presenoldeb cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

- Gwahaniaethau rhyw: Mae costau blynyddol cleifion allanol ychydig yn uwch i fenywod (£40.7 miliwn) na dynion (£37.6 miliwn), sy'n awgrymu bod mwy o ddefnydd o wasanaethau neu oroesiad hirach ymhlith menywod.
- Graddiant amddifadedd: Mae'r cwintel mwyaf amddifad yn ysgwyddo dros ddwywaith costau (£22.6m) y rhai lleiaf amddifad (£9.2m), sy'n adlewyrchu anghenion iechyd uwch sy'n gysylltiedig ag ysmegu mewn poblogaethau amddifad.
- Amrywiad daearyddol: Mae'r costau uchaf i'w gweld mewn awdurdodau lleol mwy amddifad (Caerdydd £7.9m, Rhondda Cynon Taf £7.0m, Abertawe £6.1m), tra bod gan ardaloedd gwledig llai gostau absoliwt is. Mae hyn yn amlygu'r angen am ymyriadau wedi'u targedu mewn ardaloedd baich uchel.

Yn 2022, cyfanswm costau presenoldeb cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru oedd £78.3 miliwn, ychydig yn uwch i fenywod (£40.7 miliwn) na dynion (£37.6 miliwn). Roedd costau'n dangos graddiant amddifadedd clir, gyda'r ardaloedd mwyaf amddifad yn cyfrif am fwy na dwbl costau'r lleiaf amddifad. Gwelwyd amrywiad daearyddol hefyd, gyda'r costau uchaf yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf, ac Abertawe, a'r costau isaf mewn awdurdodau gwledig llai.


## Rhyw

Mae cyfanswm y costau blynyddol ychydig yn uwch i fenywod (£40.7 miliwn) na dynion (£37.6 miliwn), sy'n awgrymu bod mwy o ddefnydd o wasanaethau neu oroesiad hirach ymhlith menywod, er bod y gwahaniaethau yn gymedrol.

## Cwintel amddifadedd a rhyw

Mae graddiant clir yn amlwg: mae'r cwintel mwyaf amddifad yn cyfrif am £22.6 miliwn, mwy na dwbl y lleiaf amddifad (£9.2m). Mae hyn yn adlewyrchu'r graddiant cymdeithasol mewn iechyd, gydag angen a chostau uwch mewn ardaloedd mwy amddifad.


Ffigur 6 Cost flynyddol cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw



## Awdurdod lleol a rhyw

Caerdydd (£7.9 miliwn), Rhondda Cynon Taf (£7.0 miliwn), ac Abertawe (£6.1 miliwn) sy'n dangos y costau uchaf, a hynny'n gysylltiedig â phoblogaethau mwy ac amddifadedd. Ardaloedd gwledig llai fel Ynys Môn (£1.6m) a Cheredigion (£1.6m) sy'n cyfrannu lleiaf, er bod awdurdodau lleol amddifad yng nghymoedd De Cymru hefyd yn ysgwyddo beichiau cost cymharol uchel.

Ffigur 7 Cost flynyddol cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw



Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y ffaith bod costau'n dilyn amddifadedd a daearyddiaeth. Dylai ymyriadau ganolbwyntio ar gymunedau amddifad, lle mae'r manteision economaidd ac iechyd fwyaf, gan sicrhau cefnogaeth gymesur ar draws awdurdodau lleol baich uchel trwy ddull blaengar sy'n rhoi'r un manteision i bawb.

## Cost gwasanaethau meddygon teulu blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

- Gwahaniaethau rhyw: Mae costau blynyddol meddygon teulu y gellir eu priodoli i ysmegu ychydig yn uwch i ddynion (£36.2m) na menywod (£35.3m), sy'n dangos gwahaniaethau cymedrol o ran rhyw yn y defnydd o ofal sylfaenol.
- Graddiant amddifadedd: Mae'r costau dros deirgwaith yn uwch yn y cwntel mwyaf amddifad (£22.6m) o'i gymharu â'r cwntel lleiaf amddifad (£7.2m), gydag ychydig mwy o fenywod amddifad na dynion, sy'n tynnu sylw at yr angen am ymyriadau wedi'u targedu mewn poblogaethau amddifad.

- Amrywiad daearyddol: Mae'r costau uchaf i'w gweld yng Nghaerdydd (£8.3 miliwn) a Rhondda Cynon Taf (£7.0 miliwn), tra bod ardaloedd llai fel Ceredigion ac Ynys Môn yn wynebu costau llawer is, sy'n dangos bod amddifadedd a maint y boblogaeth yn gyrru costau gwasanaeth meddygon teulu lleol.

Yn 2022, cyfanswm costau gwasanaeth meddygon teulu sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru oedd £71.5 miliwn, gyda chostau dynion (£36.2 miliwn) ychydig yn uwch na menywod (£35.3 miliwn). Roedd costau yn dilyn graddiant amddifadedd clir, gyda'r ardaloedd mwyaf amddifad yn cyfrif am fwy na theirgwaith costau'r lleiaf amddifad. Roedd amrywiad daearyddol yn amlwg, gyda'r costau uchaf yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf, ac Abertawe, a'r costau isaf mewn awdurdodau gwledig llai.


## Rhyw

Mae costau blynyddol meddygon teulu y gellir eu priodoli i ysmegu ychydig yn uwch i ddynion (£36.2m) na menywod (£35.3m), sy'n dangos gwahaniaethau cymedrol o ran rhyw yn y baich gofal sylfaenol o ysmegu.

## Cwintel amddifadedd a rhyw

Mae costau'n dangos graddiant cymdeithasol clir, gan ostwng o £22.6 miliwn yn y cwintel mwyaf amddifad i £7.2 miliwn yn y lleiaf amddifad. Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu cyffredinrwydd ysmegu uwch a defnydd uwch o ofal iechyd ymhlith poblogaethau mwy amddifad. Yn ddi-ddorol, mae gan fenywod yn y cwintel mwyaf amddifad gostau ychydig yn uwch na dynion, sy'n awgrymu y gall ymyriadau wedi'u targedu fod yn arbennig o fuddiol i fenywod amddifad.


Ffigur 8 Cost flynyddol gwasanaethau meddygon teulu sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw



## Awdurdod Lleol a rhyw

Mae'r costau'n amrywio'n sylweddol ledled Cymru, gyda'r uchaf yng Nghaerdydd (£8.3 miliwn) a Rhondda Cynon Taf (£7.0 miliwn), yn ôl pob tebyg oherwydd maint y boblogaeth a phatrymau ysmegu lleol. Mae ardaloedd llai fel Ceredigion ac Ynys Môn yn wynebu costau llawer is. Mae gwahaniaethau o ran rhyw ar y lefel leol yn gyffredinol yn fach ond yn amrywio yn ôl ardal.

Ffigur 9 Cost flynyddol gwasanaethau meddygon teulu sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw



Mae amddifadedd a lleoliad daearyddol yn dylanwadu'n gryf ar gostau meddygon teulu sy'n gysylltiedig ag ysmegu, tra bod gwahaniaethau o ran rhyw yn gymharol fach. Dylai ymdrechion iechyd cyhoeddus flaenoriaethu pobl sy'n byw mewn ardaloedd amddifad a chost uchel, gan sicrhau bod ymyriadau'n cyrraedd dynion a menywod fel ei gilydd yn effeithiol.

## Cost presgripsiynau blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

- Gwahaniaethau rhyw: Mae costau presgripsiynau sy'n gysylltiedig ag ysmegu ychydig yn uwch mewn dynion (£47.9m) na menywod (£46.1m), gan ddangos baich tebyg ar draws rhywiau.
- Graddiant amddifadedd: Mae'r cwintel mwyaf amddifad yn ysgwyddo £23.5 miliwn, dros £9 miliwn yn fwy na'r lleiaf amddifad (£14.1 miliwn), sy'n adlewyrchu cyffredinrwydd ysmegu uwch a salwch cysylltiedig mewn cymunedau amddifad.
- Amrywiad daearyddol: Mae'r costau uchaf yng Nghaerdydd (£10.1 miliwn), Rhondda Cynon Taf (£7.9 miliwn), ac Abertawe (£7.4 miliwn), tra bod cyfansymiau is mewn ardaloedd llai fel Merthyr Tudful (£2.0 miliwn) ac Ynys Môn (£1.9 miliwn). Mae hyn yn amlygu crynodiad y baich mewn ardaloedd poblog ac amddifad.

Yn 2022, cyfanswm costau presgripsiynau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru oedd £94 miliwn, gyda chostau dynion (£47.9 miliwn) ychydig yn uwch na menywod (£46.1 miliwn). Roedd costau'n dangos graddiant amddifadedd clir, gyda'r ardaloedd mwyaf amddifad yn ysgwyddo dros £9 miliwn yn fwy na'r lleiaf amddifad. Roedd amrywiad daearyddol yn amlwg, gyda'r costau uchaf yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf, ac Abertawe, a chyfansymiau is mewn awdurdodau gwledig llai.


## Rhyw

Mae costau presgripsiynau sy'n gysylltiedig ag ysmegu ychydig yn uwch mewn dynion (£47.9m) na menywod (£46.1m), sy'n dangos bod y ddau grŵp yn ysgwyddo baich tebyg.

## Cwintel amddifadedd a rhyw

Mae graddiant cymdeithasol clir yn bodoli - mae'r cwintel mwyaf amddifad yn costio £23.5 miliwn o'i gymharu ag £14.1 miliwn yn y lleiaf amddifad, bwlch sydd dros £9 miliwn. Mae hyn yn adlewyrchu cyffredinrwydd ysmegu uwch a mwy o salwch mewn cymunedau amddifad.


Ffigur 10 Cost flynyddol presgripsiynau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw



## Awdurdod lleol a rhyw

Mae'r costau blynyddol uchaf yng Nghaerdydd (£10.1 miliwn), Rhondda Cynon Taf (£7.9 miliwn), ac Abertawe (£7.4 miliwn), sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am dros chwarter y cyfanswm cenedlaethol. Mae gan ardaloedd llai fel Merthyr Tudful (£2.0m) ac Ynys Môn (£1.9m) gyfansymiau llawer is, er bod y baich mewn perthynas â'r boblogaeth yn parhau i fod yn uchel yn rhai o awdurdodau'r Cymoedd.

Ffigur 11 Cost flynyddol presgripsiynau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw



Mae presgripsiynau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn costio tua £94 miliwn i GIG Cymru bob blwyddyn. Er bod gwahaniaethau o ran rhyw yn fach iawn, mae amddifadedd a daearyddiaeth yn gyrru anghydraddoldebau, gyda chymunedau amddifad a chymunedau yn y Cymoedd yn wynebu costau anghymesur. Byddai mynd i'r afael ag ysmegu trwy fesurau rheoli tybaco cyffredinol a chymorth i roi'r gorau i ysmegu wedi'i dargedu mewn ardaloedd baich uchel yn cynhyrchu arbedion mawr ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd.

## Costau gofal cymdeithasol blynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

- Gwahaniaethau rhyw: Mae costau gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysmegu bron yr un fath ar gyfer dynion (£98.3m) a menywod (£97.9m), gan ddangos ychydig iawn o amrywiadau o ran rhyw.
- Graddiant amddifadedd: Mae'r cwintel mwyaf amddifad yn ysgwyddo £77.8 miliwn, saith gwaith yn fwy na'r lleiaf amddifad (£11.1m). Mae hyn yn tynnu sylw at anghydraddoldebau cymdeithasol amlwg mewn anghenion gofal sy'n gysylltiedig ag ysmegu.
- Amrywiad daearyddol: Mae'r costau uchaf wedi'u crynhoi yn awdurdodau ôl-ddiwydiannol De Cymru (Rhondda Cynon Taf £23.5 miliwn, Caerdydd £14.6 miliwn, Abertawe £14.2 miliwn), tra bod cyfansymiau llawer is mewn ardaloedd gwledig llai. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am ymyriadau wedi'u targedu mewn cymunedau baich uchel.

Yn 2022, cyfanswm y costau gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru oedd £196.2 miliwn, gan gynnwys £81.2 miliwn ar gyfer gofal preswyl a £115.0 miliwn ar gyfer gofal cartref. Roedd costau bron yr un fath i ddynion a menywod ond roeddent yn dangos graddiant amddifadedd cryf, gyda'r ardaloedd mwyaf amddifad yn ysgwyddo saith gwaith costau'r ardaloedd lleiaf amddifad. Roedd amrywiad daearyddol yn amlwg, gyda'r costau uchaf yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, a'r costau isaf mewn awdurdodau gwledig llai.


### Rhyw

O'u dadgyfuno yn ôl rhyw, mae'r costau bron yr un fath, sef £97.9 miliwn i fenywod a £98.3 miliwn i ddynion.

### Cwintel amddifadedd a rhyw

Yn ôl amddifadedd, ceir graddiant cryf: mae'r cwintel mwyaf amddifad yn ysgwyddo £77.8 miliwn mewn costau, o'i gymharu ag £11.1 miliwn ar gyfer y cwintel lleiaf amddifad, sy'n cynrychioli saith gwaith cymaint o wahaniaeth.


Ffigur 12 Cost flynyddol gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw



### Awdurdod lleol a rhyw

Yn ôl awdurdod lleol, gwelir y costau uchaf yn Rhondda Cynon Taf (£23.5 miliwn), Caerdydd (£14.6 miliwn), Abertawe (£14.2 miliwn), a Chastell-nedd Port Talbot (£14.2 miliwn), tra bod y cyfansymiau lleiaf mewn awdurdodau gwledig llai fel Ynys Môn (£2.4 miliwn) a Chonwy (£2.7 miliwn).

Ffigur 13 Cost flynyddol gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw





Roedd cyfanswm costau gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn £196 miliwn bob blwyddyn, gyda gwahaniaethau o ran rhyw yn fach iawn ond anghydraddoldebau trawiadol yn ôl amddifadedd a daearyddiaeth. Mae'r baich yn syrthio fwyaf ar gymunedau amddifad ac awdurdodau ôl-ddiwydiannol (y Cymoedd) yn Ne Cymru. Dylai polisi flaenoriaethu ymdrechion i leihau cyffredinrwydd ysmegu mewn ardaloedd amddifad baich uchel trwy gymorth wedi'i dargedu, ochr yn ochr â mesurau rheoli tybaco ar draws y boblogaeth, i leddfu'r galw am wasanaethau gofal, lleihau anghydraddoldebau, a chyflawni arbedion cost hirdymor mawr ar gyfer gofal cymdeithasol a'r GIG.

## Costau cynhyrchiant blynyddol a gollir sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

- Gwahaniaethau rhyw: Mae'r costau cynhyrchiant a gollir bron yn gyfartal rhwng dynion (£339.3m) a menywod (£330.7m), gan ddangos gwahaniaeth bach iawn rhwng y rhywiau.
- Graddiant amddifadedd: Mae'r cwintel mwyaf amddifad yn ysgwyddo £211.8 miliwn - dros deirgwaith y lleiaf amddifad (£67.3m) - sy'n amlgu'r baich ysmegu economaidd anghymesur ar gymunedau amddifad.
- Amrywiad daearyddol: Mae'r costau uchaf i'w gweld yng Nghaerdydd (£78.0 miliwn), Rhondda Cynon Taf (£65.2 miliwn), ac Abertawe (£52.7 miliwn), tra bod ardaloedd gwledig llai fel Ynys Môn (£10.1 miliwn) a Cheredigion (£12.4 miliwn) yn wynebu costau llawer is, gan ddangos bod maint y boblogaeth ac amddifadedd lleol yn ysgogi colledion cynhyrchiant.

Yn 2022/23, amcangyfrifwyd costau colli cynhyrchiant sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru trwy grynhoi effeithiau seibiannau ysmegu, absenoliaeth, presenoliaeth a marwolaethau cynamserol ymhlith oedolion o oedran gweithio, sef cyfanswm o £670 miliwn. Roedd costau bron yr un fath i ddynion a menywod, ond roedd graddiant amddifadedd cryf yn amlwg, gyda'r ardaloedd mwyaf amddifad yn ysgwyddo dros deirgwaith costau'r ardaloedd lleiaf amddifad. Roedd amrywiad daearyddol yn adlewyrchu maint ac amddifadedd y boblogaeth, gyda'r costau uchaf yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.

### Rhyw


Mae'r dadansoddiad yn dangos bod costau'n cael eu dosbarthu bron yn gyfartal rhwng dynion a menywod, gyda dynion yn cyfrif am £339.3 miliwn (50.6%) a menywod yn cyfrif am £330.7 miliwn (49.4%) o'r cyfanswm o £670 miliwn. Er bod y gwahaniaeth yn gymharol fach, gall adlewyrchu gwahaniaethau sylfaenol o ran risg i iechyd, cyffredinrwydd clefydau, neu ddefnydd o wasanaethau rhwng y rhywiau.

### Cwintel amddifadedd a rhyw

Wrth ddadansoddi ar sail cwintel amddifadedd, daw graddiant economaidd-gymdeithasol cryf i'r amlwg. Mae'r cwintel mwyaf amddifad yn cyfrif am £211.8 miliwn, sy'n fwy na theirgwaith y gost a welir yn y cwintel lleiaf amddifad, sef £67.3 miliwn. Mae'r costau'n gostwng yn raddol ar draws y lefelau amddifadedd. Mae'r patrwm clir hwn yn tynnu sylw at faich anghymesur costau iechyd mewn cymunedau mwy amddifad, gan atgyfnerthu'r

cysylltiad sefydledig rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau iechyd gwael.


Ffigur 14 Cost cynhyrchiant blynyddol a gollir sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl cwntel amddifadedd a rhyw



### Awdurdod lleol a rhyw

Ar lefel awdurdod lleol, mae amrywiaeth sylweddol. Caerdydd (£78.0 miliwn), Rhondda Cynon Taf (£65.2 miliwn), ac Abertawe (£52.7 miliwn) sy'n dangos y costau uchaf, gan adlewyrchu eu poblogaethau mwy a'u lefelau uwch o amddifadedd. Mewn cyferbyniad, mae ardaloedd llai a mwy gwledig fel Ynys Môn (£10.1 miliwn), Ceredigion (£12.4 miliwn), a Chonwy (£13.1 miliwn) yn cofnodi cyfanswm costau llawer is. Mae'r gwahaniaethau hyn yn amlygu sut mae daearyddiaeth a strwythur y boblogaeth yn croestorri ag amddifadedd i siapio'r baich cyffredinol.

Ffigur 15 Cost cynhyrchiant blynyddol a gollir sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw



Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n dangos bod graddiant cymdeithasol yn amlwg, er bod costau'n cael eu rhannu'n gyfartal rhwng dynion a menywod. Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy amddifad yn wynebu baich ariannol llawer mwy, ac awdurdodau lleol sydd ag amddifadedd uwch a phoblogaethau mwy sy'n ysgwyddo'r costau uchaf. Bydd mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn yn gofyn am bolisiau ac ymyriadau wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar gymunedau amddifad, lle mae'r enillion iechyd ac ariannol posibl ar eu huchaf.

## Y gost amgylcheddol flynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru

- Gwahaniaethau rhyw: Mae'r costau amgylcheddol bron yn gyfartal i ddynion (£122.1m) a menywod (£119.0m), gan awgrymu gwahaniaeth bach iawn rhwng y rhywiau.
- Graddiant amddifadedd: Mae'r ardaloedd mwyaf amddifad yn ysgwyddo £76.2 miliwn - dros deirgwaith y £24.2m yn yr ardaloedd lleiaf amddifad - sy'n amlygu'r baich amgylcheddol anghymesur ar gymunedau amddifad.
- Amrywiad daearyddol: Mae'r costau uchaf i'w gweld yng Nghaerdydd (£28.1 miliwn), Rhondda Cynon Taf (£23.5 miliwn), ac Abertawe (£19.0 miliwn), tra bod gan ardaloedd gwledig llai fel Ynys Môn (£3.6 miliwn) a Cheredigion (£4.5 miliwn) gyfansymiau is, sy'n dangos bod maint y boblogaeth ac amddifadedd yn gyrru effeithiau amgylcheddol.

Yn 2022, cyfanswm y costau amgylcheddol y gellir eu priodoli i ysmegu yng Nghymru oedd £241.2 miliwn. Roedd costau wedi'u rhannu bron yn gyfartal rhwng dynion a menywod, ond roedd graddiant amddifadedd cryf yn amlwg, gyda'r ardaloedd mwyaf amddifad yn ysgwyddo dros deirgwaith costau'r ardaloedd lleiaf amddifad. Roedd amrywiad daearyddol hefyd yn amlwg, gyda'r costau uchaf yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf, ac Abertawe, a chyfansymiau is mewn awdurdodau gwledig llai.


### Rhyw

Yn 2022, cyfanswm y costau amgylcheddol y gellir eu priodoli i ysmegu yng Nghymru oedd £241.2 miliwn, wedi'u dosbarthu bron yn gyfartal rhwng dynion (£122.1 miliwn, 50.6%) a menywod (£119.0 miliwn, 49.4%).

### Cwintel amddifadedd a rhyw

Mae graddiant amddifadedd clir: mae'r cymdogaethau mwyaf amddifad yn cyfrif am £76.2 miliwn (31.6%) - mwy na theirgwaith y £24.2 miliwn (10.0%) yn y cymdogaethau lleiaf amddifad. Mae hyn yn dangos bod baich ariannol ysmegu yn syrthio yn anghymesur ar y cymunedau mwyaf amddifad.


Ffigur 16 Cost amgylcheddol flynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw



### Awdurdod lleol a rhyw

Mae costau awdurdodau lleol yn amrywio yn ôl poblogaeth ac amddifadedd. Mae'r costau uchaf yng Nghaerdydd (£28.1 miliwn), Rhondda Cynon Taf (£23.5 miliwn), ac Abertawe (£19.0 miliwn), tra bod y costau isaf yn Ynys Môn (£3.6 miliwn), Ceredigion (£4.5 miliwn), a Chonwy (£4.7 miliwn). Mae rhai ardaloedd yn dangos costau uwch i fenywod, gan adlewyrchu bwlch rhwng y rhywiau sy'n culhau, tra bod costau i ddynion yn parhau i fod yn uwch mewn ardaloedd eraill.

Ffigur 17 Cost amgylcheddol flynyddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol a rhyw





At ei gilydd, amddifadedd yw prif ysgogydd costau. Mae targedu mesurau rheoli tybaco yn y cymunedau mwyaf amddifad yn cynnig y potensial mwyaf i leihau costau ac anghydraddoldebau iechyd, gydag ymyriadau yn parhau i fod yn gynhwysol o ran rhywedd.

## Colledion QALY sy'n gysylltiedig ag ysmegu a chostau cysylltiedig yng Nghymru

- Roedd marwolaethau a morbidrwydd sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn 2022/23 yn gysylltiedig â cholled QALY gydol oes o 143,264, gyda chostau yn amrywio o £2.86 biliwn (£20,000/QALY) i £10.03 biliwn (£70,000/QALY).
- Gwahaniaethau rhyw: Roedd costau dynion (59.48%) yn gyson yn uwch na menywod, gan adlewyrchu cyffredinrwydd ysmegu uwch a niwed cysylltiedig.
- Graddiant amddifadedd: Mae costau wedi'u crynhoi'n gryf yn y cwintelau mwyaf amddifad, dros deirgwaith yn uwch na'r lleiaf amddifad, gan ddangos anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol sylweddol.
- Amrywiad daearyddol: Digwyddodd y costau uchaf yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf, a Bro Morgannwg, tra bod gan ardaloedd gwledig llai fel Ynys Môn a Chonwy gostau llawer is.
- Trothwyon costau: Mae cyfanswm y costau yn codi gyda phrasiadau QALY uwch, sy'n dangos sensitifrwydd amcangyfrifon economaidd i'r gwerth a neilltuwyd fesul QALY a gollwyd.


Roedd ysmegu yng Nghymru yn gysylltiedig â cholledion iechyd sylweddol a chostau economaidd. Arweiniodd marwolaethau a morbidrwydd sy'n gysylltiedig ag ysmegu at golli 143,264 QALY dros gwrs oes. Roedd effaith economaidd colledion o'r fath yn amrywio o £2.86 biliwn i £10.03 biliwn, yn dibynnu ar brisiad QALY, gyda gwahaniaethau amlwg yn ôl rhyw, amddifadedd a daearyddiaeth. Mae'r canfyddiadau wedi'u grwpio yn ôl gwahanol drothwyon QALY (£20,000; £30,000 a £70,000 fesul QALY).

## Trothwy QALY o £20,000

### Awdurdod lleol a rhyw

Mae'r ffigur yn dangos cyfanswm y costau amcangyfrifedig wedi'u haenu yn ôl rhyw ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn gyffredinol, cyfanswm y gost gyfunol yw £2.86 biliwn, gyda dynion yn cyfrannu 59.48% o gyfanswm y costau. Bro Morgannwg sydd â'r cyfanswm cost uchaf (£176.8 miliwn), ac yna Caerdydd (£175.3 miliwn) a Rhondda Cynon Taf (£171.9 miliwn), tra bod Conwy â'r isaf (£72.3 miliwn). Mae'r dosbarthiad yn adlewyrchu maint y boblogaeth a gwahaniaethau cost rhyw-benodol ar draws awdurdodau lleol.


Ffigur 18 Costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau QALY yn ôl awdurdod lleol a rhyw yng Nghymru (£20,000/QALY)



## Cwintel amddifadedd a rhyw

Mae'r ffigur yn cyflwyno cyfanswm y costau yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw yng Nghymru. Yn gyffredinol, y gost gyfunol yw £2.86 biliwn, gyda dynion yn cyfrannu 59.48% o gyfanswm y costau. Mae'r costau wedi'u crynhoi'n gryf mewn ardaloedd mwy amddifad: mae'r rhai mwyaf amddifad yn cyfrif am £979 miliwn (34.16% o'r cyfanswm), tra bod y rhai lleiaf amddifad yn cyfrif am £265 miliwn (9.26%). Ar draws pob cwintel, mae costau dynion yn fwy na chostau menywod yn gyson, ac mae graddiant clir o gostau yn gostwng o'r mwyaf i'r lleiaf amddifad, gan amlygu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol sylweddol.

Ffigur 19 Costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau QALY yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw yng Nghymru (£20,000/QALY)




## Trothwy QALY o £30,000

### Awdurdod lleol a rhyw

Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu ar draws awdurdodau lleol Cymru yn dod i gyfanswm o £4.30 biliwn, gyda dynion yn cyfrif am 59.48% o gyfanswm y costau. Bro Morgannwg sydd â'r cyfanswm cost uchaf (£265.2 miliwn), ac yna Caerdydd (£262.9 miliwn) a Rhondda Cynon Taf (£257.9 miliwn), tra bod Conwy â'r isaf (£108.5 miliwn).


Ffigur 20 Costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau QALY yn ôl awdurdod lleol a rhyw yng Nghymru (£30,000/QALY)



## Cwintel amddifadedd a rhyw

Mae costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn dangos graddiant cymdeithasol clir ar draws cwintelau amddifadedd yng Nghymru, gyda'r ardaloedd mwyaf amddifad yn wynebu'r cyfanswm cost uchaf (£1.47 biliwn) a'r ardaloedd lleiaf amddifad yr isaf (£0.40 biliwn). Mae costau'n gostwng yn raddol wrth i amddifadedd leihau, gan amlygu cysylltiad cryf rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a baich sy'n gysylltiedig ag ysmegu. Mae dynion yn cyfrif yn gyson am gyfran fwy o'r costau ar draws pob cwintel, gan adlewyrchu cyffredinrwydd ysmegu uwch ac effeithiau cysylltiedig. Yn gyffredinol, mae mwy na hanner cyfanswm costau QALY sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn deillio o'r ddau gwintel mwyaf amddifad, gan danlinellu'r anghydraddoldeb sylweddol yng nghanlyniadau economaidd ysmegu.

Ffigur 21 Costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau QALY yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw yng Nghymru (£30,000/QALY)




## Trothwy QALY o £70,000

### Awdurdod Lleol a rhyw

Cyfanswm gwerth amcangyfrifedig QALY a gollwyd ar draws awdurdodau lleol Cymru yw £10.03 biliwn, gyda dynion yn cyfrannu 59.48% o gyfanswm y baich costau. Bro Morgannwg (£619 miliwn) sy'n cofnodi'r gost gyffredinol uchaf, ac yna Caerdydd (£614 miliwn), a Rhondda Cynon Taf (£602 miliwn) - sy'n adlewyrchu eu poblogaethau mwy a'u baich uwch sy'n gysylltiedig ag ysmegu neu amodau economaidd. Mewn cyferbyniad, awdurdodau llai neu fwy gwledig fel Ynys Môn (£265m) a Chonwy (£253m) sy'n dangos y costau isaf. Mae'r canlyniadau'n datgelu gwahaniaethau daearyddol a rhywedd clir, gyda chostau uwch wedi'u crynhoi mewn ardaloedd dwys o ran poblogaeth a mwy amddifad, a dynion yn cyfrannu cyfran fwy o'r baich cyfan yn gyson.


Ffigur 22 Costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau QALY yn ôl awdurdod lleol a rhyw yng Nghymru (£70,000/QALY)



## Cwintel amddifadedd a rhyw

Mae'r canlyniadau'n dangos graddiant cymdeithasol clir yng nghyfanswm y costau amcangyfrifedig, gyda'r cwintel mwyaf amddifad yn ysgwyddo'r baich uchaf, sef £3.43 biliwn, mwy na theirgwaith yn uwch na'r cwintel lleiaf amddifad, sef £0.93 biliwn. Mae'r patrwm hwn yn amlygu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol cryf, lle mae ardaloedd mwy amddifad yn wynebu costau sylweddol uwch. Ar draws pob cwintel, mae dynion yn cyfrannu mwy na menywod yn gyson, gan adlewyrchu cyffredinrwydd ysmegu uwch a niwed cysylltiedig ymhlith dynion. Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n pwysleisio bod amddifadedd yn un o brif ysgogiadau cyfanswm y baich costau, gyda'r poblogaethau mwyaf amddifad yn cael eu heffeithio'n anghymesur yn economaidd ac o ran effaith iechyd.

Ffigur 23 Costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn nhermau QALY yn ôl cwintel amddifadedd a rhyw yng Nghymru (£70,000/QALY)



Roedd marwolaethau a morbidrwydd sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn 2022/23 ymhlith oedolion yng Nghymru yn gysylltiedig ag amcangyfrif o 143,264 QALY a gollwyd dros oes, a hynny'n golygu costau economaidd sylweddol ar draws trothwyon QALY amrywiol. Ar y trothwyon £20,000 - £30,000 fesul QALY, roedd cyfanswm y costau yn amrywio o £2.86 biliwn i £4.30 biliwn. Ar y trothwy o £70,000, cyrhaeddodd costau £10.03 biliwn. Ar draws pob trothwy, mae dynion yn cyfrannu cyfran fwy o gostau na menywod, gan adlewyrchu cyffredinrwydd ysmegu uwch ac effeithiau marwolaethau. Bro Morgannwg, Caerdydd a Rhondda Cynon Taf oedd â'r cyfanswm costau uchaf, tra bod Ynys Môn a Chonwy â'r isaf. Roedd graddiant cymdeithasol amlwg yn glir, gyda'r ardaloedd mwyaf amddifad yn ysgwyddo dros deirgwaith costau QALY coll yr ardaloedd lleiaf amddifad, gan danlinellu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a daearyddol dwfn ym maich ysmegu ledled Cymru.

## Trafodaeth a Chasgliadau

Mae'r astudiaeth hon yn cadarnhau bod ysmegu tybaco yn parhau i roi baich economaidd ac iechyd sylweddol yng Nghymru, yn unol â thystiolaeth o Loegr a'r DU yn ehangach. Mae ein hamcangyfrif mwyaf diweddar o £1.56 biliwn y flwyddyn yn 2022 yn dangos bod y costau a adroddwyd yn flaenorol yn 2013 (£790 miliwn) wedi dyblu, yn sgil dulliau gwell o gofnodi meysydd costau a chyffredinrwydd parhaus mewn poblogaethau amddifad (48). Er bod cyffredinrwydd ysmegu wedi gostwng yng Nghymru i 13% o oedolion, nid yw'r costau ariannol wedi gostwng yn gymesur, yn bennaf oherwydd crynodiad parhaol mewn cymunedau o amddifadedd a chydabyddiaeth o gostau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.

Mae amcangyfrif cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn awgrymu bod ysmegu yn costio £1.56 biliwn i Gymru bob blwyddyn, bron i ddwywaith y £0.79 biliwn a amcangyfrifwyd yn astudiaeth gynharach ASH Cymru gan Grant (2013). Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu tystiolaeth wedi'i diweddarau a chynhwysiant costau ehangach. Yn wahanol i Grant (2013), a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gostau gofal iechyd (£302 miliwn), mae dadansoddiad ICC yn amcangyfrif costau gofal iechyd uwch (£454 miliwn) ac mae hefyd yn cynnwys gofal cymdeithasol (£196 miliwn), niwed amgylcheddol (£241 miliwn), a cholledion cynhyrchiant (£670 miliwn). Roedd costau gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru hefyd yn dangos graddiant amddifadedd clir, sy'n gyson â thystiolaeth o Loegr bod ysmegwyr angen gofal cynharach a mwy dwys.

Tabl 2 Cymhariaeth o gostau sy'n gysylltiedig ag ysmegu rhwng Cymru a Lloegr

Categori cost	Amcangyfrif ICC	ASH Cymru (Grant, 2013)	Amcangyfrif ASH Lloegr	Amcangyfrifon Lloegr wedi'u dosrannu ar gyfer Cymru
Cyfanswm y costau	£1.56 bn	£0.79 bn	£14 bn (49) £43.7 bn (50)	£0.78 bn £2.45 bn
Costau gofal iechyd	£454 m	£302 m	£1.8 bn (50)	£100.73 m
Costau gofal cymdeithasol	£196 m	X	£13.9 bn (50)	£778 m
Costau amgylcheddol	£241 m	X	X	-
Costau colli cynhyrchiant	£670 m	X	£27.6 bn (50)	£1.54 bn
Costau colli QALY	£2.86 bn	X	£34.6 bn (50)	£1.94 bn

Mae amcangyfrifon diweddar ASH (50) yn gosod costau ysmegu ar £43.7 biliwn i Loegr (2025), sy'n cyfateb i oddeutu £2.45 biliwn i Gymru pan gânt eu priodoli yn ôl y boblogaeth, sy'n uwch nag amcangyfrif ICC. Gall y gwahaniaeth hwn adlewyrchu cwmpas methodolegol ehangach yr amcangyfrifon yn Lloegr yn hytrach na nodi baich ysmegu uwch o reidrwydd. Mae amcangyfrifon Lloegr yn cynnwys diweithdra sy'n gysylltiedig ag ysmegu a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) is o fewn colledion cynhyrchiant a gofal di-dâl ac anghenion gofal heb eu diwallu o fewn costau gofal cymdeithasol - elfennau nad ydynt



wedi'u hymgorffori'n llawn yn ein dadansoddiad. O ganlyniad, cynhyrchiant (£27.6 biliwn) a gofal cymdeithasol (£13.9 biliwn) sydd amlycaf yn amcangyfrifon Lloegr. Yng Nghymru, y costau mwyaf a fesurwyd oedd colledion cynhyrchiant (£670 miliwn), ac yna effeithiau amgylcheddol (£241 miliwn) a derbyniadau i'r ysbyty (£210 miliwn). Roedd costau colli QALY yng Nghymru ychydig yn uwch na'r amcangyfrifon a ddosrannwyd yn Lloegr oherwydd bod astudiaeth Lloegr yn cynnwys marwolaethau cynamserol y gellir eu priodoli i ysmegu yn unig, tra bod amcangyfrifon Cymru yn cynnwys effeithiau marwolaethau a morbidrwydd.

Yn ogystal ag effeithiau economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol, mae ysmegu yn parhau i gael effaith sylweddol ar ganlyniadau iechyd ac ansawdd bywyd. Mae ein dadansoddiad yn amcangyfrif fod marwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn 2022/23 yn gysylltiedig â 143,264 QALY a gollwyd ar draws cwrs oes, sy'n cyfateb i'r costau o £2.86 - £10.03 biliwn yn dibynnu ar werth QALY a ddefnyddiwyd (£20,000 - £70,000 fesul QALY). Mae'r gwerthoedd hyn yn dangos bod costau ysmegu yng Nghymru sy'n gysylltiedig ag iechyd yn fwy na gwariant y GIG ar drothwyon QALY uwch, gan danlinellu cost cyfle dwys clefydau y gellir eu hatal. Gwelwyd y colledion QALY uchaf a'r costau cysylltiedig uchaf mewn ardaloedd poblog fel Bro Morgannwg, Caerdydd a Rhondda Cynon Taf, tra bod awdurdodau gwledig fel Ynys Môn a Chonwy wedi ysgwyddo cyfansymiau sylweddol is. Roedd graddiant cymdeithasol clir yn amlwg: roedd y cwintel mwyaf amddifad yn cyfrif am dros draean o gyfanswm costau sy'n gysylltiedig â QALY, tra bod y lleiaf amddifad yn cyfrannu llai na degfed ran. Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth hirsefydlog sy'n cysylltu cyffredinrwydd ysmegu, marwolaethau, a cholledion o ran ansawdd bywyd ag anfantais economaidd-gymdeithasol(8, 51, 52). Roedd dynion yn gyson yn cyfrif am gyfran uwch o gostau, gan adlewyrchu cyffredinrwydd ysmegu a baich clefydau uwch.

Ar draws pob cyd-destun, mae anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yn dod i'r amlwg fel thema ganolog. Yng Nghymru, mae cyffredinrwydd ysmegu yn y cwintel mwyaf amddifad fwy na theirgwaith yn fwy nag yn y lleiaf amddifad, gyda chanlyniadau cost yn cael eu dosbarthu yn unol â hynny. Dangosodd ein dadansoddiad fod y cymdogaethau mwyaf amddifad yn ysgwyddo £490 miliwn mewn costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu o'i gymharu â £169 miliwn yn y cwintel lleiaf amddifad. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau Lloegr bod cyffredinrwydd ysmegu a chostau iechyd a gofal cysylltiedig yn cael eu hysgwyddo'n anghymesur gan boblogaethau amddifad (23, 50). Mae anghydraddoldebau o'r fath yn gyson â rôl sefydledig ysmegu fel ffactor sy'n ysgogi gwahaniaethau iechyd mewn disgwyliad oes, ansawdd bywyd a chanlyniadau iechyd cyffredinol (53).

Mae'r graddiant economaidd-gymdeithasol amlwg a welwyd ar draws pob categori costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn amlygu'r angen am weithredu wedi'i dargedu mewn cymunedau sy'n profi'r baich mwyaf. Mae gwyddoniaeth ymddygiadol yn cynnig cyfle pwerus i gyflymu'r gostyngiad mewn ysmegu yng Nghymru, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf amddifad lle mae cyffredinrwydd ysmegu a'r costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn parhau i fod ar eu uchaf. Gall ymyriadau wedi'u teilwra fel negeseuon wedi'u targedu, cymhellion ariannol, dulliau norm cymdeithasol, ac atgyfeirio rhagweithiol at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu gynyddu ymdrechion i roi'r gorau i ysmegu ac arwain at lwyddiant o ran rhoi'r gorau i ysmegu yn llwyr (54, 55). Ochr yn ochr â pholisïau cryf i reoli tybaco, gall y dulliau hyn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a chefnogi'r cynnydd tuag at Gymru ddi-fwg.



Un o ganfyddiadau canolog yr astudiaeth hon yw bod ysmegu yn gosod costau economaidd sylweddol sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r sector gofal iechyd ac yn syrthio yn anghymesur ar gymunedau amddifad. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn tanlinellu sawl goblygiad polisi. Yn gyntaf, mae costau ysmegu yn llawer uwch na'r referniw a gynhyrchir gan drethiant tybaco, canfyddiad a bwysleisiwyd gan adroddiad ASH 2025 a amcangyfrifodd £16.5 biliwn mewn costau cyllid cyhoeddus o'i gymharu â £6.8 biliwn mewn referniw treth yn Lloegr (50). Yn ail, er bod costau gwasanaethau iechyd yn sylweddol, mae'r costau cymdeithasol mwyaf yn deillio o golledion cynhyrchiant ynghyd â gofal cymdeithasol, gan dynnu sylw at yr angen am werthusiadau cynhwysfawr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r GIG. Yn drydydd, mae crynodiad costau mewn cymunedau amddifad yn atgyfnerthu pwysigrwydd strategaethau rheoli tybaco sy'n canolbwyntio ar degwch. Byddai lleihau cyffredinrwydd ysmegu yn y grwpiau hyn yn darparu enillion iechyd ac economaidd anghymesur, gan leddfu'r pwysau ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ysmegu tybaco, mae'r defnydd cynyddol o e-sigaréts (fêps) hefyd yn haeddu sylw. Mae data diweddar yn dangos bod 10.0% o oedolion yng Nghymru yn defnyddio e-sigaréts yn 2024–25, cynnydd o 6.7% yn 2019–20, gyda'r defnydd uchaf mewn cymunedau mwy amddifad (56). Er bod fepio yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn llai niweidiol nag ysmegu a'i fod yn gallu cefnogi ymdrechion i roi'r gorau i ysmegu, gall ei gyffredinrwydd cynyddol greu ei faich ei hun yn nhermau iechyd, yr amgylchedd a'r economi (57). Mae angen ymchwil pellach i feintioli'r costau iechyd cyhoeddus a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â fepio ac i ddeall ei oblygiadau i anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

Mae gan yr astudiaeth hon sawl cyfyngiad. Yn gyntaf, er ei bod yn defnyddio'r data gorau sydd ar gael yng Nghymru, mae rhai amcangyfrifon yn dibynnu ar ragdybiaethau a pharamedrau sy'n deillio o astudiaethau'r DU neu astudiaethau rhyngwladol, nad ydynt o bosibl yn ystyried amrywiadau lleol yn llawn. Yn ogystal, mae cyffredinrwydd ysmegu wedi parhau i ostwng ers 2022/23, sy'n golygu y gallai rhai amcangyfrifon orbwysleisio baich presennol ysmegu. Yn ail, mae amcangyfrifon cyffredinrwydd ysmegu awdurdodau lleol o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn destun ansicrwydd samplu ac ni ddylid eu dehongli fel safleoedd diffiniol cyffredinrwydd ysmegu rhwng awdurdodau. Gan fod yr amcangyfrifon hyn yn sail i'r cyfrifiadau costau, gall yr ansicrwydd hwn hefyd ddylanwadu ar y costau a'r cymariaethau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig ag ysmegu ar draws awdurdodau lleol. Yn drydydd, roedd amcangyfrifon cost meddygon teulu a phresgripsiynau yn dibynnu ar ragdybiaethau sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth hanesyddol oherwydd data cost ysmegu cyfyngedig, a allai effeithio ar gywirdeb yr amcangyfrifon hyn. Yn bedwerydd, amcangyfrifwyd costau cynhyrchiant gan ddefnyddio rhagdybiaethau ar lefel poblogaeth ac nid oeddent yn cyfrif yn benodol am amrywiadau mewn statws cyflogaeth, megis diweithdra, anweithgarwch economaidd, neu gyfranogiad mewn addysg, a allai effeithio ar gywirdeb yr amcangyfrifon hyn. Yn bumed, roedd y modelu yn cymhwyso ffracsiynau y gellir eu priodoli i ysmegu a chostau uned cyfartalog ar draws grwpiau poblogaeth, a all guddio heterogenedd pwysig yn ôl clefyd, oedran a daearyddiaeth. Mae ysmegu hefyd yn rhyngweithio â phenderfynyddion iechyd eraill, megis meddiannaeth, amodau tai, yfed alcohol, a diet, na ellir eu dal yn llawn trwy fesurau amddifadedd yn unig. Yn chweched, ni chynhwyswyd costau anuniongyrchol penodol, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol ehangach mwg ail-law, morbidrwydd hirdymor ymhlith cyn-ysmygwyr, a cholledion llesiant anniriaethol nad ydynt wedi'u dal trwy QALY, sy'n golygu bod y baich economaidd



cyffredinol yn debygol o fod wedi'i danamcangyfrif. Yn olaf, er bod haenu yn ôl awdurdod lleol, cwintel amddifadedd, a rhyw yn cryfhau'r dadansoddiad tegwch, mae natur drawstoriadol y data cyffredinrwydd yn cyfyngu ar ddehongliad achosol ac efallai na fydd yn adlewyrchu'n llawn batrymau ysmegu hanesyddol neu dueddiadau yn y dyfodol mewn ymddygiad ysmegu a chostau cysylltiedig.

## Argymhellion

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y ffaith bod ysmegu yn gosod baich economaidd sylweddol ac anghyfartal ar Gymru gyda'r effeithiau trymaf wedi'u canolbwyntio mewn cymunedau amddifad. Mae'r canlyniadau hyn yn tanlinellu'r brys sy'n bodoli o ran dwysáu mesurau rheoli tybaco fel blaenoriaeth iechyd cyhoeddus a blaenoriaeth economaidd. Dylai polisiau gyfuno mesurau cyffredinol - megis trethiant parhaus, cyfyngu ar ddelweddau o dybaco ar y teledu, a deddfwriaeth ddi-fwg - gydag ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau cyffredinrwydd uchel a chost uchel, yn enwedig mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol ac amddifad. Mae ehangu mynediad cyfartal at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu, integreiddio mesurau atal ysmegu mewn strategaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, a buddsoddi mewn ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus yn hanfodol i leihau cyffredinrwydd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

O ystyried bod colledion cynhyrchiant, costau gofal cymdeithasol, a cholledion QALY y gellir eu priodoli i ysmegu gymaint neu'n fwy na gwariant gofal iechyd, mae gweithredu effeithiol yn gofyn am gydweithredu ar draws sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, cyflogaeth ac amgylcheddol. Dylai llunwyr polisi hefyd bwysleisio'r baich economaidd sy'n cael ei ysgwyddo gan gyflogwyr, gan gynnwys colli cynhyrchiant, mwy o absenoliaeth, a chostau recriwtio a hyfforddi staff newydd yn dilyn salwch sy'n gysylltiedig ag ysmegu a marwolaethau cynamserol.

Byddai Cymru ddi-fwg erbyn 2030 nid yn unig yn darparu enillion iechyd mawr ond hefyd yn lliniaru'r pwysau ar y GIG a gofal cymdeithasol, yn lleihau difrod amgylcheddol, ac yn gwella cynhyrchiant economaidd, gan gynhyrchu arbedion hirdymor sylweddol i'r llywodraeth a chymdeithas.

Gan adeiladu ar y gwaith hwn, bwriedir cynnal dadansoddiadau economaidd pellach i asesu costau, manteision, cost-effeithiolrwydd, ac adenillion o fuddsoddi mewn ystod o ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu a mesurau rheoli tybaco yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiadau cost-effeithiolrwydd dosbarthiadol i werthuso nid yn unig enillion iechyd cyffredinol ond hefyd sut y gall yr ymyriadau hyn effeithio ar anghydraddoldebau iechyd ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth a lefelau amddifadedd. Yn ogystal, gallai gwerthusiadau economaidd o drefniadau trwyddedu manwerthwyr tybaco a mesurau rheoleiddio eraill ddarparu tystiolaeth gadarn i lywio polisiau rheoli tybaco yn y dyfodol, gwneud penderfyniadau, a dyrannu adnoddau.

Gyda'i gilydd, bydd y rhaglen waith hon yn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rheoli tybaco yng Nghymru, gan helpu llunwyr polisi i nodi ymyriadau sy'n cyflawni'r manteision iechyd ac economaidd mwyaf. Trwy gefnogi polisiau rheoli tybaco mwy effeithiol a theg, mae gan yr ymchwil hon y potensial i leihau cyffredinrwydd ysmegu, gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, a chyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru.

## Cyfeiriadau

1. World Health Organization. Tobacco: WHO; 2025 [Ar gael o: <https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/tobacco>].
2. Goodchild M, Nargis N, Tursan d, Espaignet E. Global economic cost of smoking-attributable diseases. *Tobacco Control*. 2018;27(1):58.
3. Ng M, Freeman MK, Fleming TD, Robinson M, Dwyer-Lindgren L, Thomson B, et al. Smoking prevalence and cigarette consumption in 187 countries, 1980-2012. *Jama*. 2014;311(2):183-92.
4. Action on Smoking and Health. Smoking statistics. 2024. Ar gael o: <https://ash.org.uk/uploads/Smoking-Statistics-Fact-Sheet.pdf?v=1731432998>.
5. Llywodraeth Cymru. Ffordd o fyw oedolion (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. 2023. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/ffordd-o-fyw-oedolion-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrrill-2022-i-fawrth-2023>.
6. Moylan S, Jacka FN, Pasco JA, Berk M. How cigarette smoking may increase the risk of anxiety symptoms and anxiety disorders: a critical review of biological pathways. *Brain Behav*. 2013;3(3):302-26.
7. Llywodraeth Cymru. Cymru Ddi-fwg: Strategaeth hirdymor Cymru ar gyfer rheoli tybaco. 2022. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/strategaeth-rheoli-tybaco-i-gymru.pdf>.
8. Marmot M. Health equity in England: the Marmot review 10 years on. *Bmj*. 2020;368:m693.
9. UK Government. Tobacco and Vapes Act. Department of Health and Social Care; 2026.
10. Llywodraeth Cymru. Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2021/22 a 2022/23: Data Cyfunol [Casgliad Data]. UK Data Service; 2024.
11. Centers for Disease Control and Prevention. Publications and Reports of the Surgeon General. How Tobacco Smoke Causes Disease: The Biology and Behavioral Basis for Smoking-Attributable Disease: A Report of the Surgeon General. Atlanta (GA): Centers for Disease Control and Prevention (US); 2010.
12. GBD 2019 Risk Factors Collaborators. Global burden of 87 risk factors in 204 countries and territories, 1990-2019: a systematic analysis for the Global Burden of Disease Study 2019. *Lancet*. 2020;396(10258):1223-49.
13. International Agency for Research on Cancer. IARC monographs on the evaluation of carcinogenic risks to humans. Lyon, France: IARC Press; 2004.
14. National Center for Chronic Disease Prevention and Health Promotion (US) Office on Smoking and Health. The health consequences of smoking—50 years of progress: A report of the Surgeon General. Atlanta(GA): Centers for Disease Control and Prevention; 2014.
15. World Health Organization. International statistical classification of diseases and related health problems, 10th revision, Fifth edition, 2016. Geneva: World Health Organization; 2015.
16. Jones KC, Weatherly H, Birch S, Castelli A, Chalkley M, Dargan A, et al. Unit Costs of Health and Social Care 2022 Manual: Technical report. Personal Social Services Research Unit (University of Kent) & Centre for Health Economics (University of York), Kent, UK; 2022. Ar gael o: <https://kar.kent.ac.uk/100519/>.
17. Callum C, Boyle S, Sandford A. Estimating the cost of smoking to the NHS in England and the impact of declining prevalence. *Health Econ Policy Law*. 2011;6(4):489-508.
18. Llywodraeth Cymru. Buddsoddiad mewn ymarfer cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018 i 2019 i'r flwyddyn ariannol 2022 i 2023. 2024. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/buddsoddiad-mewn-ymarfer-cyffredinol-ar-gyfer-y-flwyddyn-ariannol-2018-i-2019-ir-flwyddyn-ariannol>.
19. Office for National Statistics. Population estimates for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland: mid-2022. 2024. Ar gael o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/mid2022>.



20. Joossens L, Raw M. The tobacco control scale 2016 in Europe. *Tobacco Control*. 2017;26:423–8.
21. Llywodraeth Cymru. Costau presgripsiynu yn GIG Cymru 2022–23. 2023. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/presgripsiynau-gofal-sylfaenol-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html>.
22. NHS. Paying for your own care (self-funding): NHS; 2022 [Ar gael o: <https://www.nhs.uk/social-care-and-support/money-work-and-benefits/paying-for-your-own-care-self-funding/>].
23. Action on Smoking and Health. The cost of smoking to the social care system. London: ASH; 2021. Ar gael o: <https://ash.org.uk/uploads/SocialCare.pdf>.
24. Office for National Statistics. National life tables: Wales. 2024. Ar gael o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/lifeexpectancies/datasets/nationallifetableswalesreferencetables/current>.
25. Berman M, Crane R, Seiber E, Munur M. Estimating the cost of a smoking employee. *Tob Control*. 2014;23(5):428-33.
26. Weng SF, Ali S, Leonardi-Bee J. Smoking and absence from work: systematic review and meta-analysis of occupational studies. *Addiction*. 2013;108(2):307-19.
27. Baker CL, Flores NM, Zou KH, Bruno M, Harrison VJ. Benefits of quitting smoking on work productivity and activity impairment in the United States, the European Union and China. *Int J Clin Pract*. 2017;71(1).
28. National Institute for Health and Care Excellence. Guide to the methods of technology appraisal. London: NICE; 2013. Ar gael o: [www.nice.org.uk/process/pmg9](http://www.nice.org.uk/process/pmg9)
29. Sloan FA, Ostermann J, Conover C, Taylor DH, Picone G. *The Price of Smoking*. Online: Penguin Random House; 2006.
30. Llywodraeth Cymru. Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: canlyniadau 2022. 2022. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2022>.
31. Llywodraeth Cymru. Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): 2022. 2023.
32. Office for National Statistics. Adult smoking habits in the UK: average cigarette consumption methodology. 2024. Ar gael o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/drugusealcoholandsmoking/methodologies/adultsmokinghabitsintheukaveragecigaretteconsumptionmethodology#average-daily-cigarette-consumption-in-2022>.
33. A Global Tobacco Industry Watchdog. 2022. [dyfynnwyd 12/04/2025]. Ar gael o: <https://exposetobacco.org/news/effects-of-tobacco-on-environment>.
34. Department for Energy Security & Net Zero. UK ETS: Carbon prices for use in civil penalties, 2021 and 2022 2021 [Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/publications/determinations-of-the-uk-ets-carbon-price/uk-ets-carbon-prices-for-use-in-civil-penalties-2021-and-2022>].
35. Díaz-Mendoza C, Arias Ordiales P, Bustos ML, Cervantes O, Palacios-Moreno M, Vera San-Martin T, et al. Abundance and distribution of cigarette butts on the sand of five touristic beaches in Latin America during the COVID-19 pandemic. *Mar Pollut Bull*. 2023;194(Pt A):115306.
36. Llywodraeth Cymru. Dadansoddiad o gyfansoddiad gwastraff sbwriel yng Nghymru. 2019. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/dadansoddiad-o-gyfansoddiad-gwastraff-sbwriel-yng-nghymru.pdf>.
37. Department for Environment FRA. Government explores next steps to clean up tobacco litter in England 2021 [Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/news/government-explores-next-steps-to-clean-up-tobacco-litter-in-england>].
38. CleanUpBritain. Get your butt off our streets 2022 [Ar gael o: <https://cleanupbritain.org/clean-up-britain-campaign>].
39. Llywodraeth Cymru. Deliberate fires 2023-24. 2024 12/04/2025. Ar gael o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2024-12/deliberate->

- [fires-april-2023-march-2024-054.pdf](#).
40. Llywodraeth Cymru. Effeithlonrwydd y Gwasanaeth Tân ac Achub. 2014. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/effeithlonrwydd-y-gwasanaeth-tan-ac-achub.pdf>.
  41. Islington Gazzatte. London among top 10 worst cities for air pollution in UK. 2023. Ar gael o: <https://www.islingtongazette.co.uk/news/23341372.london-among-top-10-worst-cities-air-pollution-uk/>.
  42. Talaie A, Amani A. Preparing emission factors of carbon dioxide, carbon monoxide, hydrocarbons and nitrogen oxides for cigarette. *Journal of Air Pollution and Health*. 2018;3:219-24.
  43. Lu F, Yu M, Chen C, Liu L, Zhao P, Shen B, et al. The Emission of VOCs and CO from Heated Tobacco Products, Electronic Cigarettes, and Conventional Cigarettes, and Their Health Risk. *Toxics*. 2021;10(1).
  44. Department for Environment FRA. Air quality appraisal: damage cost guidance 2023 [Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/publications/assess-the-impact-of-air-quality/air-quality-appraisal-damage-cost-guidance>].
  45. Maheswaran H, Petrou S, Rees K, Stranges S. Estimating EQ-5D utility values for major health behavioural risk factors in England. *J Epidemiol Community Health*. 2013;67(2):172-80.
  46. Office for National Statistics. Death registration summary statistics, England and Wales: 2022. 2023. Ar gael o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/articles/deathregistrationsummarystatisticsenglandandwales/2022>.
  47. Emmerson C, Cosh H, Patterson B, Hughes R. Smoking attributable mortality and hospital admissions for Wales, 2020-22 Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru; 2024. Ar gael o: <https://share.google/t4SeKI6RRZa8SnSOh>.
  48. Grant A. The Economic Costs of Smoking to Wales: A Review of Existing Evidence. Caerdydd: ASHCymru; 2013. Ar gael o: <https://ash.wales/wp-content/uploads/2025/01/cost-of-smoking-to-wales-2013.pdf>.
  49. Action on Smoking and Health. £14bn a year up in smoke: Economic toll of smoking in England revealed 2023 [Ar gael o: <https://ash.org.uk/media-centre/news/press-releases/14bn-a-year-up-in-smoke-economic-toll-of-smoking-in-england-revealed>].
  50. Action on Smoking and Health. The economic impact of smoking: Ready reckoner 2025 update 2025 [Ar gael o: <https://ash.org.uk/key-topics/the-economic-impact-of-smoking>].
  51. Hiscock R, Bauld L, Amos A, Fidler JA, Munafò M. Socioeconomic status and smoking: a review. *Ann N Y Acad Sci*. 2012;1248:107-23.
  52. Office for National Statistics. Adult smoking habits in the UK: 2022. ONS; 2023. Ar gael o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/bulletins/adultsmokinghabitsingreatbritain/2022>.
  53. Public Health England. Towards a Smokefree Generation: A Tobacco Control Plan for England 2018. Ar gael o: [https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a822dc740f0b6230269b419/Towards\\_a\\_Smoke\\_free\\_Generation\\_-\\_A\\_Tobacco\\_Control\\_Plan\\_for\\_England\\_2017-2022\\_2\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a822dc740f0b6230269b419/Towards_a_Smoke_free_Generation_-_A_Tobacco_Control_Plan_for_England_2017-2022_2_.pdf).
  54. Notley C, Gentry S, Livingstone-Banks J, Bauld L, Perera R, Hartmann-Boyce J. Incentives for smoking cessation. *Cochrane Database Syst Rev*. 2019;7(7):Cd004307.
  55. West R, Michie S, Rubin GJ, Amlôt R. Applying principles of behaviour change to reduce SARS-CoV-2 transmission. *Nature Human Behaviour*. 2020;4(5):451-9.
  56. Llywodraeth Cymru. Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosfwrdd dangosydd canlyniadau 2025 [Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosfwrdd-dangosydd-canlyniadau>].
  57. van Teijlingen E, Mahato P, Simkhada P, van Teijlingen C, Asim M, Sathian B. Vaping and e-cigarettes: A public health warning or a health promotion tool? *Nepal J Epidemiol*. 2019;9(4):792-4.

## Atodiadau

### Cost Ysmygu yng Nghymru yn ôl Byrddau Iechyd

#### Crynodeb

Yn 2022/23, costiodd ysmygu fwy na £1.56 biliwn i Gymru, gyda'r costau cyffredinol mwyaf ym myrddau iechyd Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr, a Chaerdydd a'r Fro. Pobl sy'n byw yn Aneurin Bevan a Chwm Taf Morgannwg oedd yn wynebu'r costau uchaf fesul person a fesul oedolyn. Ysmygwyr yn Aneurin Bevan oedd â'r gost uchaf fesul ysmygwr hefyd, tra bod ysmygwyr yn Hywel Dda â'r isaf. Ledled Cymru, roedd hyn yn cyfateb i tua £499 y pen, £622 fesul oedolyn, a £4,661 fesul ysmygwr, gan ddangos bod ysmygu yn parhau i greu baich ariannol trwm, ac nad yw'r baich hwn yr un peth ym mhobman.


Byrddau Iechyd	Cyfanswm y costau	Cost y pen	Cost fesul Oedolyn	Cost fesul Ysmygwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	£315,630,077.14	£648.28	£810.67	£6,287.11
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	£299,568,739.55	£435.29	£540.18	£4,472.08
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	£250,283,838.77	£495.04	£621.63	£4,522.95
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	£277,678,074.76	£625.35	£786.26	£5,056.09
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	£173,113,609.93	£353.57	£440.31	£3,350.43
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	£50,309,081.16	£375.75	£455.95	£4,769.56
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	£194,871,793.00	£508.22	£631.04	£4,297.19
<b>Cyfanswm Terfynol</b>	<b>£1,561,455,214.29</b>	<b>£498.61</b>	<b>£621.60</b>	<b>£4,660.91</b>

Yn yr un modd, arweiniodd colledion sy'n gysylltiedig ag ysmygu yng Nghymru at gostau mawr iawn o ran ansawdd bywyd gwaeth (QALY) o farwolaeth gynamserol a salwch hirdymor. Roedd y rhain yn amrywio o £2.86 biliwn ar drothwy o £20,000/QALY i £10.03 biliwn ar £70,000/QALY, gydag effeithiau uwch ar ddynion a'r colledion mwyaf i'w gweld ym Myrddau Iechyd Betsi Cadwaladr ac Aneurin Bevan. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau'n dangos bod ysmygu yn achosi baich iechyd ac economaidd sylweddol ledled Cymru trwy farwolaeth gynnar a salwch cronig.

## Canfyddiadau


### Cyffredinrwydd Ysmygu

Yn 2022/23, roedd cyfartaledd cyffredinrwydd ysmygu yng Nghymru yn 13.6%, gyda chyfraddau ychydig yn uwch mewn dynion (14.1%) na menywod (13.1%). Gwelwyd y cyffredinrwydd cyffredinol uchaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (16.5%), a'r isaf ym Myrddau Iechyd Aneurin Bevan ac Addysgu Powys (12.4%). Mae'r amrywiad hwn yn amlygu gwahaniaethau rhanbarthol mewn ymddygiad ysmygu ar draws byrddau iechyd Cymru.




## Derbyniadau i'r Ysbyty

Yn 2022, amcangyfrifwyd bod derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn costio tua £210.2 miliwn, gyda derbyniadau dynion (£123.1 miliwn) yn cyfrif am gyfran fwy na derbyniadau menywod (£87.1 miliwn). Cofnodwyd y costau cyffredinol uchaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (£63.6 miliwn) a Chwm Taf Morgannwg (£54.0 miliwn), tra bod yr isaf ym Mhowys (£6.7 miliwn). Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at wahaniaethau rhanbarthol a rhywedd sylweddol yn y baich gofal iechyd sy'n gysylltiedig ag ysmegu ledled Cymru.




## Presenoldeb Cleifion Allanol

Yn 2022, amcangyfrifwyd bod presenoldeb cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru tua £78.3 miliwn, gyda chleifion benywaidd (£40.7 miliwn) yn cyfrif am gostau ychydig yn uwch na chleifion gwrywaidd (£37.6 miliwn). Cofnodwyd y costau cleifion allanol cyffredinol uchaf ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (£16.7 miliwn) ac Aneurin Bevan (£14.7 miliwn), tra bod yr isaf ym Mhowys (£3.2 miliwn). Mae'r ffigurau hyn yn dangos gwahaniaethau rhanbarthol nodedig yn y defnydd o wasanaethau cleifion allanol sy'n gysylltiedig ag ysmegu ledled Cymru.




## Ymweliadau â Meddygon Teulu

Yn 2022, amcangyfrifwyd bod ymweliadau â meddygon teulu sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn costio tua £71.5 miliwn, gyda chleifion gwrywaidd (£36.2 miliwn) yn cyfrif am gostau ychydig yn uwch na chleifion benywaidd (£35.3 miliwn). Cofnodwyd y costau mwyaf ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (£14.3 miliwn) ac Aneurin Bevan (£13.4 miliwn), tra bod yr isaf ym Mhowys (£2.3 miliwn). Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at y baich gofal sylfaenol eang a chyson sy'n deillio o ysmegu ar draws holl fyrddau Iechyd Cymru.




## Presgripsiynau

Yn 2022, roedd cyfanswm costau presgripsiynau sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru tua £94.0 miliwn, gyda chleifion gwrywaidd (£47.9 miliwn) yn cyfrif am gostau ychydig yn uwch na chleifion benywaidd (£46.1 miliwn). Cofnodwyd y gwariant uchaf ar bresgripsiynau ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (£20.4 miliwn) ac Aneurin Bevan (£17.3 miliwn), tra bod yr isaf ym Mhowys (£4.0 miliwn). Mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu'r costau fferyllol sylweddol ac eang sy'n gysylltiedig ag ysmegu ledled Cymru.




## Gofal Cymdeithasol

Yn 2022, amcangyfrifwyd bod costau gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn £196.2 miliwn, gyda'r costau wedi'u rhannu bron yn gyfartal rhwng derbynwyr gofal benywaidd (£97.9 miliwn) a gwrywaidd (£98.3 miliwn). Cofnodwyd y costau cyffredinol uchaf ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (£40.2 miliwn) a Chwm Taf Morgannwg (£36.8 miliwn), tra bod yr isaf ym Mhowys (£5.5 miliwn). Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at y baich gofal cymdeithasol sylweddol sy'n deillio o ysmegu ar draws holl fyrddau iechyd Cymru.




## Colli Cynhyrchiant

Yn 2022, amcangyfrifwyd bod cynhyrchiant a gollwyd sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn costio £670.0 miliwn, gyda cholledion ymhlith dynion (£339.3 miliwn) ychydig yn fwy na'r colledion ymhlith menywod (£330.7 miliwn). Gwelwyd y costau uchaf o ran colli cynhyrchiant ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (£134.0 miliwn) ac Aneurin Bevan (£125.7 miliwn), tra bod yr isaf ym Mhowys (£21.1 miliwn). Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu effaith economaidd sylweddol ysmegu ar weithlu Cymru ym mhob rhanbarth.



## Effaith Amgylcheddol


Yn 2022, amcangyfrifwyd bod costau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag ysmegu yng Nghymru yn £241.2 miliwn, gydag effeithiau sy'n gysylltiedig â dynion (£122.1 miliwn) ychydig yn uwch nag effeithiau sy'n gysylltiedig â menywod (£119.0 miliwn). Cofnodwyd y costau amgylcheddol uchaf ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (£48.2 miliwn) ac Aneurin Bevan (£45.3 miliwn), tra bod yr isaf ym Mhowys (£7.6 miliwn). Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at faich amgylcheddol sylweddol ysmegu ar draws holl yrddau Iechyd Cymru.



## Costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu oherwydd colli QALY o ganlyniad i farwolaethau a morbidrwydd yng Nghymru


### Trothwy QALY o £20,000

Amcangyfrifwyd bod cyfanswm cost colli QALY oherwydd marwolaethau a morbidrwydd sy'n gysylltiedig ag ysmegu ymhlith oedolion yn 2022/23 yng Nghymru - gwerth £20,000 fesul trothwy QALY - oddeutu £2.86 biliwn ar draws cwrs oes, gyda dynion yn cyfrannu 59.48% o gyfanswm y baich costau. Gwelwyd yr effeithiau mwyaf ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (£723 miliwn) ac Aneurin Bevan (£585 miliwn), tra bod yr isaf ym Mhowys (£115 miliwn). Mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu'r costau dynol ac economaidd dwfn o farwolaethau cynamserol sy'n gysylltiedig ag ysmegu ledled Cymru.




## Trothwy QALY o £30,000

Amcangyfrifwyd bod cyfanswm cost colli QALY oherwydd marwolaethau a morbidrwydd sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn 2022/23 yng Nghymru, gwerth £30,000 fesul trothwy QALY, oddeutu £4.30 biliwn ar draws cwrs oes, gyda dynion yn cyfrannu 59.48% o gyfanswm y baich costau. Cofnodwyd y costau cyffredinol uchaf ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (£1.08 miliwn) ac Aneurin Bevan (£879 miliwn), tra bod yr isaf ym Mhowys (£173 miliwn). Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu baich cymdeithasol ac economaidd sylweddol marwolaethau cynamserol sy'n gysylltiedig ag ysmegu ledled Cymru.



## Trothwy QALY o £70,000

Amcangyfrifwyd bod cyfanswm cost colli QALY oherwydd marwolaethau a morbidrwydd sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn 2022/23 yng Nghymru, gwerth £70,000 fesul trothwy QALY, oddeutu £10.03 biliwn ar draws cwrs oes, gyda dynion yn cyfrannu cyfran uwch (59.48%) o'r golled honno. Cofnodwyd yr effeithiau mwyaf ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (£2.53 miliwn) ac Aneurin Bevan (£2.05 miliwn), tra bod yr isaf ym Mhowys (£403 miliwn). Mae'r amcangyfrifon hyn yn tynnu sylw at faich cymdeithasol ac economaidd enfawr marwolaethau cynamserol sy'n gysylltiedig ag ysmegu ledled Cymru pan roddir gwerth ar drothwyon QALY uwch.





GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Polisi ac Iechyd Rhyngwladol**  
Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y  
Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a  
Llesiant

**Policy and International Health**  
World Health Organization  
Collaborating Centre on Investment for Health and  
Well-being

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN: 978-1-83766-876-2